



**Asiantaeth Sicrhau Ansawdd
Addysg Uwch**

Prifysgol Cymru

MAI 2004

Adolygiad sefydliadol

RG 096 01/05

Cyhoeddwyd gan

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch
Southgate House
Southgate Street
Gloucester GL1 1UB

Ffôn 01452 557000

Ffacs 01452 557070

Ebost comms@qaa.ac.uk

Gwefan www.qaa.ac.uk

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2005

ISBN 1 84482 219 2

Mae pob un o gyhoeddiadau'r Asiantaeth ar gael ar ein gwefan
www.qaa.ac.uk

Mae copïau ar gael mewn print gan:

Linney Direct

Adamsway

Mansfield

Nottinghamshire NG18 4FN

Ffôn 01623 450788

Ffacs 01623 450629

Ebost qaa@linneydirect.com

Prifysgol Cymru

MAI 2004

Adolygiad sefydliadol

Rhagair

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (yr Asiantaeth) yn bodoli i ddiogelu diddordeb y cyhoedd mewn cymwysterau addysg uwch (AU) o safon gadarn ac i annog gwelliant parhaus yn y ffordd y rheolir ansawdd AU.

I wneud hyn, mae'r Asiantaeth yn gwneud adolygiadau o sefydliadau AU unigol (prifysgolion a cholegau AU). Yr enw ar y broses hon yng Nghymru yw'r adolygiad sefydliadol. Mae'r Asiantaeth yn gwneud prosesau tebyg ond ar wahân yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Pwrpas adolygiad sefydliadol

Bwriad adolygiad sefydliadol yw ateb diddordeb y cyhoedd sydd eisiau gwybod fod prifysgolion a cholegau yn:

- darparu dyfarniadau a chymwysterau AU o ansawdd dderbyniol ac o safon academaidd addas; ac yn
- arfer eu pwerau cyfreithiol i ddyfarnu graddau yn y dull cywir.

Beirniadaethau

O ganlyniad i'r adolygiad sefydliadol ceir beirniadaeth am y sefydliad a adolygwyd. Rhoddir beirniadaeth am:

- yr **hyder** y gellir ei roi yn rhesymol yn y ffordd mae'r sefydliad yn rheoli ansawdd ei raglenni a safonau academaidd ei ddyfarniadau, a'r ffordd y mae'n debygol o wneud hynny yn y dyfodol;
- faint y gellir **dibynnu** i raddau rhesymol ar gywirdeb, gonestrwydd, cyflawnder a didwylledd yr wybodaeth y mae'r sefydliad yn ei chyhoeddi, ac am ansawdd ei raglenni a safonau ei ddyfarniadau

Mynegir y beirniadaethau yma naill ai fel hyder, hyder cyfyngedig neu ddim hyder a rhoir esiamplau hefyd o ymarferion da ac argymhellion ar gyfer gwella.

Safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol

Mae adolygiad sefydliadol yn defnyddio cyfres o bwyntiau cyfeirio y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, sef y 'Strwythur Mewnol Academaidd', i ystyried ansawdd a safonau sefydliad. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi gan yr Asiantaeth ac maent yn cynnwys:

- *Y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon (FHEQ), sy'n cynnwys disgrifiadau o wahanol gymwysterau AU;*
- *Y Côd ymarfer ar gyfer sicrhau safonau ac ansawdd academaidd mewn addysg uwch;*
- datganiadau meincnodi pwnc, sy'n disgrifio nodweddion graddau mewn gwahanol bynciau;
- canllawiau ar gyfer paratoi manylebion rhaglenni, sy'n ddisgrifiadau o'r hyn a gynigir i'r myfyrwyr mewn rhaglenni astudio unigol. Maen nhw'n amlinellu pa wybodaeth, sgiliau, dealltwriaeth a nodweddion a ddisgwylir gan y myfyrwyr sy'n cwblhau'r rhaglenni hynny. Maen nhw hefyd yn rhoi manylion dulliau addysgu ac asesu ac yn cysylltu'r rhaglen â'r FHEQ.

Y broses adolygu

Mae timau o bobl academaidd yn gwneud adolygiadau sefydliadol ac maen nhw'n adolygu'r ffordd y mae sefydliadau'n arolygu eu safonau a'u hansawdd academaidd. Am eu bod yn gwerthuso cymheiriaid, enw'r broses yw'r 'adolygiad cymheiriaid'.

Dyma brif elfennau'r adolygiad sefydliadol:

- ymweliad cychwynnol gan yr Asiantaeth â'r sefydliad naw mis cyn yr ymweliad adolygu;
- dogfen hunanwerthuso a gyflwynir gan y sefydliad bedwar mis cyn yr ymweliad adolygu;
- cyflwyniad ysgrifenedig gan gorff cynrychioli'r myfyrwyr, os ydynt wedi dewis gwneud hynny, bedwar mis cyn yr ymweliad adolygu;
- ymweliad briffio manwl â'r sefydliad gan y tîm adolygu bum wythnos cyn yr ymweliad adolygu;
- yr ymweliad adolygu, sy'n para pum niwrnod;
- cyhoeddi adroddiad am feirniadaeth y tîm adolygu a'u canfyddiadau 22 wythnos ar ôl yr ymweliad adolygu.

Y dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad

Er mwyn cael gafael ar y dystiolaeth i'w helpu i ffurfio barn, mae'r tîm adolygu'n gwneud nifer o weithgareddau, yn cynnwys:

- adolygu dogfennau a gweithdrefnau mewnol y sefydliad ei hun, e.e. rheoliadau, datganiadau polisi, codau ymarfer, cyhoeddiadau recriwtio a chofnodion cyfarfodydd perthnasol, yn ogystal â'r ddogfen hunanwerth usiad ei hun;
- adolygu cyflwyniadau ysgrifenedig gan y myfyrwyr;
- gofyn cwestiynau i staff perthnasol;
- siarad â myfyrwyr am eu profiadau;
- archwilio sut mae'r sefydliad yn defnyddio'r strwythur mewnol academaidd.

Mae'r tîm adolygu hefyd yn casglu dystiolaeth drwy ganolbwyntio ar esiamplau o brosesau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliad ar waith, gan ddefnyddio 'llwybrau thematig'. Gallai'r llwybrau yma ganolbwyntio ar y ffordd mae prosesau sefydliadol yn gweithio ar lefel leol a thrwy'r sefydliad yn ei gyfanrwydd.

Gofynnir i sefydliadau gyhoeddi gwybodaeth am ansawdd a safonau eu rhaglenni a'u dyfarniadau mewn fformat sydd wedi'i argymhell yn nogfen 04/05 *Gwybodaeth am ansawdd a safonau mewn addysg uwch*, sydd wedi'i chyhoeddi gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Cynnwys

Crynodeb	1	Gwerthuso a gwobrwyo staff a datblygiad staff	19
Cyflwyniad	1	Sicrhad o ansawdd yr addysgu a ddarperir drwy gynlluniau dysgu o bell a dysgu wedi'i ddsbarthu	19
Canlyniad yr adolygiad	1	Arweiniad academaidd ac arolygiad y myfyrwyr	19
Ymarferion da	1	Cefnogaeth bersonol	20
Argymhellion ar gyfer gweithredu	1	Trefniadau cydweithredol	20
Pwyntiau cyfeirio cenedlaethol	2	Cyfrifoldeb am ansawdd a safonau	20
Y prif adroddiad	4	Nodweddion allweddol y gweithdrefnau	22
Adran 1: Cyflwyniad: Prifysgol Cymru	4	Llinellau cyfathrebu a chefnogaeth weinyddol	23
Y sefydliad a'i genhadaeth	4	Penodi arholwyr allanol ar gyfer darpariaeth gydweithredol	23
Darpariaeth gydweithredol	5	Dilysu graddau ymchwil	24
Gwybodaeth gefndirol	5	Profiad y myfyrwyr o'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi	24
Y broses adolygu	6	Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi	24
Datblygiadau ers yr archwiliad ansawdd academaidd blaenorol	6		
Adran 2: Archwiliadau'r adolygiad: prosesau sefydliadol	7	Canfyddiadau	26
Pa mor effeithiol yw fframwaith y sefydliad ar gyfer rheoli ansawdd a safonau	7	Pa mor effeithiol yw'r gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer sicrhau safonau dyfarniadau	26
Datganiad y Brifysgol yn y SED	7	Sicrhau ansawdd rhaglenni	28
Barn y tîm adolygu	9	Cefnogi dysgu	29
Gwella ansawdd a safonau	12	Pwyntiau cyfeirio cenedlaethol	29
Cymeradwyaeth, monitro ac adolygiad mewnol	14	Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth	29
Cyfranogiad allanol mewn prosesau adolygu, monitro a chymeradwyo mewnol	14	Bwriadau ar gyfer gwella ansawdd a safonau	30
Adolygu ac achredu'r rhaglenni gan gyrff allanol	14	Defnyddio'r SED	30
Gweithdrefnau ac ymarferion asesu	15	Pa mor effeithiol yw'r gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau dyfarniadau drwy ddarpariaeth gydweithredol	31
Arholwyr allanol a'u hadroddiadau	16	Nodweddion o ymarfer da	31
Mynediad y myfyrwyr a'r defnydd a wneir o ystadegau dilyniant a chwblhau	17	Argymhellion ar gyfer gweithredu	31
Pwyntiau cyfeirio allanol	17		
Cynrychiolaeth y myfyrwyr	18	Atodiad	32
Adborth	18	Ymateb y Brifysgol i adroddiad yr adolygiad	32
Cwynion ac apeliadau myfyrwyr	18		

Crynodeb

Cyflwyniad

Bu tîm o adolygwyr o'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (yr Asiantaeth) yn ymweld â Phrifysgol Cymru (y Brifysgol) o Fai 24ain hyd yr 28ain 2004 i wneud adolygiad sefydliadol. Pwrpas yr adolygiad oedd darparu gwybodaeth gyhoeddus am ansawdd y cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr ac am safonau academaidd y dyfarniadau mae'r Brifysgol yn eu cynnig.

I ddod i'w gasgliadau bu'r tîm adolygu'n siarad ag aelodau o staff drwy'r Brifysgol i gyd a gyda chynrychiolydd o blith y myfyrwyr. Bu hefyd yn darllen amrediad eang o ddogfennau yn ymwneud â'r ffordd mae'r Brifysgol yn rheoli agweddau academaidd ei darpariaeth.

Defnyddir y geiriau 'safonau academaidd' i ddisgrifio lefel y cyrhaeddiad y mae'n rhaid i fyfyrwr ei gyrraedd er mwyn ennill dyfarniad academaidd (e.e. gradd). Dylai'r lefel yma fod yn debyg drwy Brydain gyfan.

Mae ansawdd academaidd yn ffordd o ddisgrifio faint mae'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael i'r myfyrwyr yn gallu eu helpu nhw i ennill eu dyfarniad. Mae'n ymwneud â sicrhau bod addysgu, cefnogaeth, asesiad a chyfleoedd i ddysgu sy'n briodol wedi'u darparu ar eu cyfer.

Mae adolygiad sefydliadol yn adolygu safonau academaidd ac ansawdd academaidd.

Canlyniad yr adolygiad

O ganlyniad i'w harchwiliadau, dyma farn y tîm adolygu am Brifysgol Cymru:

- gellir teimlo'n hyderus i raddau cyfyngedig yn y ffordd mae'r Brifysgol yn rheoli ansawdd ei rhaglenni a safonau academaidd ei dyfarniadau ar hyn o bryd, a'r ffordd mae'n debygol o wneud hynny yn y dyfodol.

Wrth ddod i'r casgliad yma, roedd y tîm adolygu'n ystyried hefyd y cyfrifoldeb cyfyngedig y mae'r Brifysgol wedi'i gadw am sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a gynigir yn ei haelod-sefydliadau. Felly, mae'r farn yn ymwneud yn benodol â chyfrifoldeb Prifysgol Cymru fel corff dyfarnu. Ond, nid oes tystiolaeth i awgrymu bod amheuaeth am unrhyw un o'r dyfarniadau a enillir gan fyfyrwyr sy'n astudio yn yr aelod-sefydliadau.

Roedd y tîm adolygu hefyd yn teimlo:

- bod modd teimlo'n hyderus yn y ffordd mae'r Brifysgol yn rheoli ansawdd ei rhaglenni a

safonau academaidd ei dyfarniadau a gynigir mewn cydweithrediad â phartneriaid ac sydd wedi'u gweinyddu gan Uned Ddilysu'r Brifysgol, ar hyn o bryd, a'r ffordd mae'n debygol o wneud hynny yn y dyfodol,.

Ers yr adolygiad, mae'r ASA wedi derbyn gwybodaeth sy'n dangos bod y brifysgol wedi cymryd camau priodol i weithredu ar ganfyddiadau'r adroddiad hwn. O'r herwydd, llofnodwyd bod yr adolygiad wedi'i gwblhau yn Hydref 2006.

Nodweddion sy'n ymarferion da

Cyfeiriodd y tîm adolygu at y meysydd nesaf yma fel ymarferion da:

- sefydlu cynhadledd y safonwyr i helpu i gefnogi gwaith yr Uned Ddilysu;
- gosod gweinyddwr o'r Uned Ddilysu gyda'r safonwr er mwyn sicrhau bod ymweliadau'r safonwr yn drwyadl ac yn gyflawn; a'r
- gwaith a wna'r Brifysgol i gefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg drwy weithgareddau'r Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg.

Argymhellion ar gyfer gweithredu

Mae'r tîm adolygu hefyd yn argymhell fod Prifysgol Cymru yn ystyried gweithredu pellach mewn nifer o feysydd er mwyn sicrhau bod ansawdd a safonau academaidd y dyfarniadau y mae'n eu cynnig yn parhau. Ym marn y tîm, mae'n hanfodol bod y Brifysgol:

- yn sefydlu ac yn gweithredu polisi ffurfiol, a gweithdrefnau cysylltiol, i sicrhau safonau academaidd yr holl ddyfarniadau y mae'r Brifysgol yn gyfrifol amdanynt; ac
- yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth i sicrhau diogelwch dyfarniadau Prifysgol Cymru yn y dyfodol.

Roedd y tîm adolygu hefyd o'r farn bod angen cynghori Prifysgol Cymru i:

- atgyfnerthu strwythurau sy'n bodoli'n barod er mwyn sicrhau agwedd fwy integredig tuag at arweinyddiaeth academaidd a gweinyddol ar gyfer gweithgareddau ffederal y Brifysgol; ac
- adolygu ac ail ddiffinio'r cydberthnasau rhwng pwyllgorau'r Brifysgol, sut maen nhw'n darparu adroddiadau ac yn sicrhau adborth, ac egluro eu hamodau gorchwyl a'u cyfrifoldebau.

Mae'r tîm adolygu hefyd yn argymhell y byddai'n fanteisiol i Brifysgol Cymru:

- ganfod ffyrdd o sicrhau fod adroddiadau allanol am yr aelod-sefydliadau, ac ymatebion i'r adroddiadau hynny, yn cyfrannu'n effeithiol at ddiogelu dyfarniadau y mae'r Brifysgol yn gyfrifol amdanynt;
- datblygu agwedd fwy cydlynol tuag at swyddogaeth y Brifysgol mewn gwella ansawdd y ddarpariaeth sy'n arwain at ei dyfarniadau; a
- pharhau i ystyried ac ymdrin â'r argymhellion a geir yn Adroddiad Wright.

Pwyntiau cyfeirio cenedlaethol

I ddarparu mwy o dystiolaeth i gefnogi ei ganfyddiadau, bu'r tîm adolygu hefyd yn archwilio'r ffordd mae'r Brifysgol yn defnyddio'r Fframwaith Academaidd y mae'r Asiantaeth wedi'i ddatblygu ar ran addysg uwch ym Mhrydain gyfan. Mae'r Fframwaith Academaidd yn gyfres o bwyntiau cyfeirnod sydd wedi'u cytuno'n genedlaethol sy'n helpu i ddiffinio safonau academaidd ac ymarferion da. Canfu'r adolygiad bod y Brifysgol yn gwneud defnydd effeithiol yn gyffredinol o'r Fframwaith Academaidd i hysbysu ei fframwaith ar gyfer rheoli ansawdd a safonau.

Y prif adroddiad

Y prif adroddiad

1 Cafwyd adolygiad sefydliadol o Brifysgol Cymru (y Brifysgol) o Fai'r 24ain hyd yr 28ain 2004. Pwrpas yr adolygiad oedd darparu gwybodaeth gyhoeddus fod y Brifysgol yn darparu cymwysterau a dyfarniadau addysg uwch o ansawdd dderbyniol ac o safon academaidd briodol.

2 Roedd yr adolygwyr yn defnyddio proses a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (yr Asiantaeth) mewn partneriaeth â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). I sefydliadau yng Nghymru, mae'n cymryd lle'r broses flaenorol o archwiliad parhad, yr oedd yr Asiantaeth yn ei wneud ar gais Prifysgolion Prydain a Chynhadledd Sefydlog y Penaethiaid. Hefyd, mae'r adolygiad sefydliadol yn cymryd lle asesiadau a gweithrediadau sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau'r ddarpariaeth ar lefel y pwnc. Y CCAUC oedd yn gwneud y cyntaf a'r Asiantaeth oedd yn gwneud yr ail ar ran CCAUC fel rhan o gyfrifoldeb statudol CCAUC i asesu ansawdd yr addysg mae'n ei hariannu.

3 Roedd yr adolygiad yn edrych ar ba mor effeithiol yw gweithdrefnau'r Brifysgol i sefydlu a chynnal safonau ei dyfarniadau academaidd; i adolygu a gwella ansawdd y rhaglenni astudio sy'n arwain at y dyfarniadau hynny; ac i gyhoeddi gwybodaeth ddibynadwy. Roedd yr adolygiad yn cwmpasu holl ddarpariaeth y Brifysgol a'r holl drefniadau cydweithredol sy'n arwain at ei dyfarniadau.

Adran 1: Cyflwyniad: Prifysgol Cymru

Y sefydliad a'i genhadaeth

4 Sefydlwyd y Brifysgol drwy Siarter Frenhinol yn 1893, ac mae'n un o sefydliadau cenedlaethol hynaf Cymru. Mae'n brifysgol ffederal sy'n cynnwys wyth aelod-sefydliad (Aberystwyth; Bangor; Caerdydd; y Coleg Meddygaeth; Llanbedr Pont Steffan; Abertawe; Prifysgol Cymru, Casnewydd a Sefydliad Prifysgol Cymru, Caerdydd) y mae pob un ohonynt yn dyfarnu gradd Prifysgol Cymru. Mae pedwar sefydliad addysg uwch Cymru arall (SAU) yn cynnig rhaglenni astudio sy'n arwain at ddyfarnu gradd Prifysgol Cymru ond nid ydynt yn aelod-sefydliadau. O'r rhain, mae Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWI), Sefydliad Addysg Uwch Abertawe a Choleg y Drindod, Caerfyrddin, wedi'u cysylltu'n ffurfiol â'r Brifysgol fel Sefydliadau Cysylltiol (SC). Ar hyn o bryd mae'r pedwerydd, Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru (RWCMD), yn cynnig dyfarniadau Prifysgol drwy ei ddarpariaeth sydd wedi'i dilysu. Mae Cofrestrfa'r Brifysgol yng

Nghaerdydd. Ers yr adolygiad yma, mae Coleg Prifysgol Cymru, Casnewydd wedi newid ei deitl i Brifysgol Cymru, Casnewydd.

5 Mae rhyw 70,000 o fyfyrwyr i gyd wedi'u cofrestru ar gynlluniau astudio'r Brifysgol yn y sefydliadau cysylltiol a'r aelod-sefydliadau yng Nghymru, ac mae 9,000 o fyfyrwyr eraill wedi'u cofrestru ar gynlluniau wedi'u dilysu. Yn 2002-03, dyfarnodd y Brifysgol rhyw 15,000 o raddau cyntaf a 4,250 o raddau uwch yn yr amrediad gyfan bron iawn o bynciau academaidd.

6 Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol yn y broses o newid ei strwythur. Mae Caerdydd a'r Coleg Meddygaeth yn uno ym mis Awst 2004 ac, ar yr un pryd, mae Caerdydd yn ceisio'r teitl ffurfiol 'Prifysgol Caerdydd'. Dan y fframwaith polisi presennol dydi hi ddim yn bosib i sefydliad sydd â theitl prifysgol ffurfiol fod yn rhan neu'n aelod o brifysgol arall. Felly, disgwylir i Gaerdydd adael Prifysgol Cymru ym mis Awst 2004, ond bydd y sefydliad sydd wedi'i gyfuno yn parhau i ddefnyddio gradd Prifysgol Cymru ar gyfer cynlluniau mewn meddygaeth a deintyddiaeth a rhai pynciau perthnasol. Mae trefniadau ar waith i'r sefydliad cyfun ddod yn Sefydliad Cyswllt (cysylltiedig) o ddyddiad yr ymwahaniad. Mae nifer o sefydliadau, yn ychwanegol at Gaerdydd, yn meddu ar eu pwerau dyfarnu graddau eu hunain yn barod, neu'n ceisio pwerau o'r fath. Ar hyn o bryd, mae'n faen prawf ar gyfer dod yn aelod o'r Brifysgol na chaiff sefydliad arfer unrhyw bwerau o'r fath tra bo'n aelod. Mae'r Brifysgol yn ceisio newid y polisi er mwyn galluogi i sefydliad sydd â'r teitl ffurfiol 'prifysgol' fod yn aelod neu'n rhan gyfansoddol o brifysgol arall. Os bydd yn llwyddo i wneud hynny, byddai'n bosib i sefydliadau fel Caerdydd fod yn aelodau, ac unrhyw sefydliad arall fyddai'n derbyn teitl prifysgol yn y dyfodol. Byddai'r newidiadau yma'n golygu bod rhaid i Brifysgol Cymru wneud newidiadau sylweddol i berchnogaeth dyfarniadau ac i sicrhad safonau academaidd. Mae'r tri Sefydliad Cysylltiol a'r RWCMD wedi derbyn gwahoddiad gan y Brifysgol i ddod yn aelod-sefydliadau. Ar hyn o bryd, gelwir y sefydliadau yma'n sefydliadau cyfansoddol (wedi'u hethol). Maent oll erbyn hyn ar y cam trosglwyddo yn yr aelodaeth fydd yn para hyd at bum mlynedd tra bo panel yn eu hadolygu.

7 Nodwedd arbennig o'r Brifysgol yw ei chefnogaeth i addysgu cyfrwng Cymraeg drwy Fwrdd y Brifysgol. Mewn partneriaeth â Sefydliadau Addysg Uwch eraill, mae'r Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg yn cydlynu darpariaeth drwy Gymru gyfan.

8 Dyma Ddatganiad o Genhadaeth y Brifysgol: 'Mae Prifysgol Cymru'n mwynhau hunaniaeth nodedig fel prifysgol ffederal sy'n cynnwys wyth aelod-sefydliad y mae'n bodoli i gefnogi eu gweithgareddau academaidd, ac y mae'n awdurdod dyfarnu graddau ar eu cyfer. Mae'r Brifysgol hefyd yn mwynhau cysylltiadau agos â sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru.

Cydweithrediad, partneriaeth a'r gallu i ddibynnu ar ei gilydd - wedi'i dymheru gan gydnabyddiaeth o gyfradd annibyniaeth y Brifysgol a'i haelodau fel ei gilydd - yw hanfod ei Chenhadaeth. Nod strategol eang y Brifysgol yw helpu i greu'r amodau lle mae ei haelod-sefydliadau, yn ogystal â'i gwasanaethau a'i hunedau academaidd canolog ei hun, yn cyrraedd eu potensial llawn ac yn cadw eu rhagoriaeth academaidd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol. Mae'r Brifysgol yn cefnogi ac yn ychwanegu gwerth at waith academaidd ei haelodau drwy:

- weithredu, fel y corff dyfarnu graddau, i sicrhau eu bod yn cadw'r safonau academaidd uchaf mewn perthynas â'i chymwysterau ac yn cadw ac yn amddiffyn eu henw da a'u huniondeb;
- annog aelod-sefydliadau i ddatblygu cydweithrediad academaidd rhyngddynt ac i geisio mentrau newydd ar y cyd;
- darparu gwasanaethau ac unedau academaidd sydd wedi'u trefnu'n ganolog;
- gweithredu fel fforwm ar gyfer mynegi barn y sefydliadau ar y cyd am strategaeth a pholisi academaidd y Brifysgol;
- darparu gwasanaethau gweinyddol academaidd effeithlon, cost-effeithiol ac o ansawdd da ar gyfer y sefydliadau sy'n aelodau ohoni.

Yng Nghymru, mae'r Brifysgol yn sefydliad cenedlaethol mawr. Mae wedi'i hymrwymo i helpu i gyflawni anghenion addysgiadol ac economaidd Cymru ac i gefnogi ei threftadaeth ieithyddol, ddiwylliannol a chenedlaethol. Os edrychwn y tu hwnt i'w chyfrifoldebau Cymreig amlwg, mae'r Brifysgol hefyd wedi'i hymrwymo i'w swyddogaeth ryngwladol ac i wella ei statws ym Mhrydain gyfan a thramor'.

Darpariaeth gydweithredol

9 Sefydlwyd y Bwrdd Dilysu yn 1974 i gynghori'r Bwrdd Academaidd ar bob mater sy'n ymwneud â dilysiad cynlluniau astudio gradd a graddau is y Brifysgol. Ei swyddogaeth yw sefydlu a sicrhau statws academaidd y Brifysgol mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a thrwy'r byd i gyd. Mae'n goruchwylio oddeutu 200 o ddyfarniadau

Prifysgol Cymru mewn oddeutu 100 o sefydliadau i fwy na 9,000 o fyfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn ei disgrifio ei hun fel un sydd ar flaen y gad mewn datblygiadau cydweithredol ym Mhrydain. Cenhadaeth y Bwrdd Dilysu yw 'sefydlu cysylltiadau dilysu gyda chanolfannau o statws da ar sail genedlaethol/ryngwladol' ac mae'n cyfeirio at y ffaith ei bod hi'n ddyletswydd gan y Bwrdd i 'sicrhau, mewn materion sy'n ymwneud â dilysu ac etholfreinio, bod cywirdeb a statws academaidd y Brifysgol wedi'u diogelu bob amser'.

Gwybodaeth gefndirol

10 Roedd yr wybodaeth gyhoeddedig ar gyfer yr adolygiad yma'n cynnwys:

- adroddiad archwiliad ansawdd blaenorol y Brifysgol gan y Cyngor Ansawdd Addysg Uwch (HEQC) a wnaethpwyd yn 1993, adroddiad a gyhoeddwyd yn 1994;
- adroddiadau archwiliad o ansawdd yr Asiantaeth o raglenni sydd wedi'u dilysu dramor: Coleg Portobello, Gweriniaeth Iwerddon, Mawrth 1999, y Grŵp o Golegau 'Know How', Sbaen, Tachwedd 2000.

11 Darparodd y Brifysgol y dogfennau nesaf yma i'r Asiantaeth:

- y ddogfen hunanwerthuso sefydliadol (SED);
- Cynllun Strategol 2002-03 - 2006-07;
- Adolygiad Blynyddol;
- Calendr y Brifysgol;
- cyfle i fynd ar wefan mewnwyd y Brifysgol, oedd yn cynnwys cofnodion gan y Bwrdd Academaidd, y Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig (RSCC), y Pwyllgor Safonau Academaidd (CAS), y Bwrdd Dilysu;
- Cynllun Cyhoeddi'r Brifysgol;
- rhestr o'r trefniadau dilysu ac etholfreinio cyfredol;
- y Fframwaith Academaidd;
- Ystadegau;
- Ymateb i adroddiad archwiliad yr HEQC yn 1994;
- Adroddiad yr Adolygiad Dilysu ac Etholfreinio: James Wright;
- Y Llawlyfr Ansawdd Dilysiad;
- Y Llawlyfr Ansawdd Dilysiad (cynllun Astudiaethau Iechyd);
- Y Llawlyfr Etholfreinio;

- adroddiadau diweddar yr Asiantaeth am gysylltiadau partneriaeth tramor: Coleg Portobello, Gweriniaeth Iwerddon a'r Grŵp Colegau 'Know How' yn Sbaen.

12 Yn ystod yr ymweliadau briffio ac adolygu, roedd rhwydd hynt i'r tîm adolygu weld dogfennau mewnol y Brifysgol.

Y broses adolygu

13 Cafwyd ymweliad cychwynnol gan yr Asiantaeth â'r Brifysgol ym mis Medi 2003 i drafod agweddau gweithredol yr adolygiad. Derbyniodd yr Asiantaeth yr SED ym mis Mawrth 2004.

14 Bu'r tîm adolygu'n ymweld â'r Brifysgol ar Ebrill 21ain a'r 22ain 2004 er mwyn archwilio gyda'r Uwch-Is-Ganghellor, aelodau uwch o'r staff a chynrychiolydd o blith y myfyrwyr, faterion sy'n ymwneud â rheoli ansawdd a safonau a godwyd gan y SED neu ddogfennaeth arall a ddarparwyd ar gyfer y tîm. Yn ystod yr ymweliad briffio yma cyfeiriodd y tîm at nifer o themâu ar gyfer yr ymweliad adolygu a datblygwyd rhaglen o gyfarfodydd y cytunwyd arnynt gyda'r Brifysgol.

15 Gwahoddwyd myfyrwyr y Brifysgol, drwy Sefydliad y Myfyrwyr, i gyflwyno dogfen ar wahân yn mynegi eu barn ar brofiad y myfyriwr yn y Brifysgol, ac i bennu unrhyw faterion sy'n achosi pryder neu y maent eisiau eu cymeradwyo mewn perthynas ag ansawdd y rhaglenni a safonau'r dyfarniadau. Cawsant hefyd eu gwahodd i roi eu barn am lefel y gynrychiolaeth a gânt ac i ba raddau yr oedd eu barn yn derbyn ystyriaeth.

16 Ar ddechrau'r ymweliad briffio, rhoddodd Sefydliad y Myfyrwyr i'r Asiantaeth gyflwyniad ysgrifenedig y myfyrwyr (SWS) a baratowyd gan Sefydliad Myfyrwyr Prifysgol Cymru mewn cydweithrediad ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru.

17 Cafwyd yr ymweliad adolygu o Fai 24ain 2004 ac roedd yn cynnwys mwy o gyfarfodydd gyda staff y Brifysgol. Dyma'r tîm adolygu: Dr D Furneaux; Yr Athro H Griffiths, Dr I C Smith, yr adolygwyr, a Mr R A Platt, ysgrifennydd yr adolygiad. Cydlynwyd yr adolygiad ar gyfer yr Asiantaeth gan Mrs N J Channon, Pennaeth Gweithrediadau, Adolygiad Sefydliadol, Grŵp Adolygiadau.

Datblygiadau ers yr archwiliad ansawdd academiaidd blaenorol

18 Roedd adroddiad archwiliad 1994 yr HEQC wedi codi dau brif fater yn ymwneud â graddau Prifysgol Cymru. Roedd un o'r argymhellion yn

dangos bod angen llawlyfr ffederal awdurdodol a diffiniol, neu rywbeth cyfatebol, yn amlinellu pwerau a chyfrifoldebau perthnasol y strwythurau ffederal a'r colegau mewn perthynas â sicrhau ansawdd. Ymatebodd y Brifysgol drwy gyhoeddi ei Fframwaith Academiaidd yn 1997 oedd yn disgrifio sut roedd y Brifysgol yn gyfrifol am safonau ei graddau, ond bod ei sefydliadau yn gyfrifol am sicrhau ansawdd, er bod hynny gyda chyfranogaeth amrywiol gan y Brifysgol fyddai'n newid yn ôl aeddfedrwydd y sefydliad. Yn ei chyflwyniad i'r ddogfen Fframwaith roedd y Brifysgol yn cydnabod y gallai trosglwyddiad pellach y cyfrifoldeb a ddisgrifiwyd yn y dogfennau, ar ei ben ei hun, 'wneud y Brifysgol yn agored i'r cyhuddiad nad yw ei dyfarniadau mwyach o safon sydd wedi'i chadw'n gyson ac wedi'i gwarantu', ac aeth ymlaen i ddisgrifio sut yr oedd y Fframwaith Academiaidd wedi'i ddatblygu, yn rhannol, i orchfygu'r sialens yma.

19 Hefyd, gofynnodd adroddiad archwilio 1994 sut y gallai'r Bwrdd Academiaidd geisio diffinio ac annog agwedd fwy strategol drwy'r Brifysgol gyfan tuag at gynnal a gwella safonau. O ganlyniad, sefydlodd y Brifysgol Bwyllgor ar Ansawdd a Safonau Academiaidd (CAQS) ond cymerwyd lle hwn yn 2002 gan y CAS gyda chylch gwaith ar gyfer materion gwella ansawdd megis adroddiadau a mentrau'r Asiantaeth. Hefyd, cymerodd y Bwrdd Academiaidd y prif gyfrifoldeb am safonau ar yr amser yma. Mae effeithiolrwydd y Fframwaith a strwythur diwygiedig y pwyllgor wedi'u hystyried yn nes ymlaen yn yr adroddiad yma.

20 Roedd nifer o argymhellion pellach a gafwyd yn adroddiad archwilio'r HEQC yn cynnwys gwella'r weithdrefn apeliadau ar gyfer ôl-raddedigion; datblygu'n gyflym agwedd gydlynol tuag at fodiwlareiddiad; a chynllun addas i alluogi'r Gofrestrfa i ateb yr anghenion ffederal newydd. Ymatebodd y Brifysgol drwy wneud cyfres o ddiwygiadau i'r weithdrefn apeliadau ar gyfer ôl-raddedigion, yn cynnwys cyflwyno amserlen ar gyfer prosesu apeliadau ac adolygiadau i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth ddiweddar; cefnogi mabwysiadu modiwlareiddiad ar draws amrediad eang o'i chynlluniau; adolygu a diweddarau'n rheolaidd reoliadau perthnasol yn cynnwys y cynllun Cronni a Throsglwyddo Credyd (CAT) ac yn ddiweddar mae wedi'i alinio ei hun â *Fframwaith Credyd a Chymwysterau i Gymru'r Cynulliad Cenedlaethol*. Er mwyn ateb yr anghenion ffederal newydd, penododd y Brifysgol swyddog personél a hyfforddiant, gweithredwyd proses werthuso a datblygiad personol, cynyddwyd y ddarpariaeth ar gyfer hyfforddi ac ail hyfforddi staff, ac mae wedi

nodi ei ymrwymiad i ennill statws Buddsoddwyr mewn Pobl. Hefyd, gwnaeth adroddiad yr HEQC argymhellion yn ymwneud ag agweddau o archwiliad ffederal arholwyr allanol a gweithdrefnau ar gyfer adolygu eu hadroddiadau. I ymateb i hyn, aeth y Brifysgol ati i ddirprwyo'r materion yma i'r aelod-sefydliadau, drwy ei Fframwaith Academaidd, yn amodol ar Adran C adroddiad yr arholwyr allanol, ar gyfer 'materion o ddirprwyo'r materion yma i'r Brifysgol ffederal'. Yn achos y Sefydliadau Cysylltiol, mae'n ofynnol gan y Gofrestrfa a chadeiryddion pynciau gael archwiliadau pellach o benodiadau, a derbynnir copiâu o'r adroddiadau llawn yn ganolog yng Nghofrestrfa'r Brifysgol. Pan fydd arholwr allanol wedi canfod materion o natur ffederal, cânt ddewis cwblhau adran o ffurflen yr adroddiad ac anfon hwn yn uniongyrchol i'r Brifysgol, yna bydd y Gofrestrfa'n crynhoi'r rhain i'w trafod. Ond, caiff y prif adroddiadau eu trin a'u crynhoi yn ôl gweithdrefnau'r sefydliadau unigol. Gwnaeth adroddiad archwilio'r HEQC hefyd nifer o awgrymiadau yn ymwneud â goruchwyllo cyrsiau wedi'u dilysu a chefnogaeth eu safonwyr. Mae'r Brifysgol wedi ymateb drwy ehangu swyddogaeth y Bwrdd Dilysu, gan gymryd rôl amlwg mewn monitro a gwella ei darpariaeth a darparu llawlyfrau manwl a diweddariadau blynyddol ar gyfer safonwyr. Eglurwyd y gweithdrefnau ar gyfer arholwyr allanol ar raglenni wedi'u dilysu. Ar ben hynny, anfonir gwybodaeth gofrestru at fyfyrwyr mewn sefydliadau wedi'u dilysu sy'n diffinio faint mae'r sefydliad yn cyfranogi yn y Brifysgol.

21 Yn 2001-02, comisiynodd y Brifysgol Syr David Williams i wneud adolygiad o'i 'Haelodaeth, Strwythurau a *Modus Operandi*'. Darparodd Syr David ei adroddiad yn 2002 (Adroddiad Williams) a chafodd ei gasgliadau, sy'n adlewyrchu'r weledigaeth 'un Genedl, un Brifysgol', eu mabwysiadu'n gyfan gwbl gan y Brifysgol. Casgliadau Adroddiad Williams oedd y dylid dileu'r gwahaniaethu oedd yn bodoli rhwng sefydliadau cyfansoddol a cholegau prifysgol gynted ag y bo'n ymarferol bosib; y dylid gwahodd Prifysgol Morgannwg i ymuno â'r Brifysgol Ffederal; y dylid ystyried y gallu i ddyfarnu graddau'n hanfodol er mwyn sicrhau rôl ystyrlon i'r strwythur ffederal; bod rhaid i'r Brifysgol barhau i arfer swyddogaeth sicrhau ansawdd i gefnogi ei phrif swyddogaeth fel yr awdurdod dyfarnu graddau; ac y dylai Bwrdd yr Is-Ganghellor maes o law gymryd swyddogaethau Addysg Uwch Cymru. Mae newidiadau diweddar mewn aelodaeth, a'r rheini sydd wedi'u cynnig, wedi cyfateb â'r argymhellion, er bod dymuniad Caerdydd i ymwahanu oddi wrth y radd ffederal, a Morgannwg i aros y tu allan i'r radd ffederal, wedi peri sialens i weithrediad llawn yr argymhellion. Gwelodd yr

adroddiad fod 'elfennau cyffredin y safonau academaidd drwy Brifysgol ffederal Cymru', sydd wedi'u cydnabod yn y Fframwaith Academaidd, yn rhywbeth i'w feithrin ym marn llawer o bobl, a hynny i raddau ar gyfer tanategu system sy'n gweithio o sicrhau ansawdd drwy Gymru gyfan.

22 Yn 2002-03, ac mewn ymateb i un o'r argymhellion yn Adroddiad Williams, comisiynodd y Brifysgol banel annibynnol wedi'i gadeirio gan James Wright i wneud adolygiad o'i gweithgareddau dilysu ac etholfreinio (Adroddiad Wright). Cafodd yr 18 o argymhellion a nodwyd yn Adroddiad Wright eu hardystio hefyd gan y Brifysgol. Roedd y rhain yn cynnwys tynnu'n ôl yn raddol o raglenni a ddysgir mewn ieithoedd heblaw Saesneg neu Gymraeg a'r angen i benodi ymgynghorydd arbenigol os nad oes gan y Brifysgol yr un gallu i gynnig y pwnc ei hun. Roedd argymhellion eraill yn weithredol gan fwyaf yn cynnwys yr angen i gynhyrchu cynllun busnes treiglol am bum mlynedd.

23 Cydnabu'r tîm adolygu fod y Brifysgol wedi ymateb dros y 10 mlynedd diwethaf i nifer o newidiadau ariannol, gwleidyddol ac amgylchiadol drwy wneud adolygiad gweithredol a thrwy geisio cyngor allanol. Ond, ychydig o dystiolaeth welodd y tîm o ymatebion i newidiadau yn y fframwaith academaidd cenedlaethol ar gyfer sicrhau ansawdd mewn addysg uwch. Yn dilyn gweithrediad y Fframwaith Academaidd a'r hyder a roddwyd gan Adroddiad Williams, ynghyd â'r adroddiadau positif gan yr Asiantaeth am ei sefydliadau, mae'r Brifysgol wedi cynnal y polisi o reoleiddio agweddau cyfyngedig yn unig o safonau academaidd gan adael y sefydliadau i sicrhau a monitro gwelliant a gweithdrefnau ansawdd.

Adran 2: Archwiliadau'r adolygiad: prosesau sefydliadol

Pa mor effeithiol yw fframwaith y sefydliad ar gyfer rheoli ansawdd a safonau

Datganiad y Brifysgol yn y SED

24 Roedd SED y Brifysgol, fel Prifysgol Ffederal, yn esbonio sut mae'r cyfrifoldeb am reoli a sicrhau ansawdd ei rhaglenni, a safonau academaidd ei dyfarniadau, wedi'u diffinio, eu dirprwyo a'u penderfynu mewn perthynas â'r cyfrifoldebau sydd gan y Brifysgol Ffederal a'r sefydliadau hynny sy'n cynnig ei dyfarniadau. Drwy ddarparu'r esboniad yma pwysleisiodd yr SED bwysigrwydd 'hanfodol' Fframwaith Academaidd y Brifysgol a'i ddiffiniadau trosfwaol o swyddogaethau a chyfrifoldebau'r

Brifysgol Ffederal a'i haelod-sefydliadau, ei sefydliadau sydd wedi'u dilysu a'i sefydliadau cysylltiol. Esboniodd y SED bod y Fframwaith Academaidd yn darparu diffiniadau amlwg o sicrhau ansawdd, safonau academaidd ac ansawdd academaidd, ac yn penderfynu beth fydd cyfranogaeth ddilynol y Brifysgol a'r sefydliadau dyfarnu. Er bod y Brifysgol a'i haelod-sefydliadau yn cyfrannu o hyd i'r gwaith o sicrhau ansawdd, mae'r cyfrifoldeb penodol am ansawdd academaidd o fewn y Fframwaith Academaidd yn berthnasol i'r 'broses addysgiadol a gaiff y myfyrwyr' ac, felly, cyfrifoldeb sefydliadau'r Brifysgol gan fwyaf yw ansawdd y materion sy'n ymwneud â'r rhaglenni.

25 Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu'r diffiniadau yma o ansawdd, safonau a sicrhau ansawdd:

- 'ansawdd': lefel rhagoriaeth y ddarpariaeth academaidd a darpariaeth berthnasol y mae sefydliad yn ei sicrhau i'w fyfyrwyr (h.y., mae'r term 'ansawdd' yn ymwneud â'r broses addysg a gaiff y myfyrwyr);
- 'safonau': natur a lefel y cyrhaeddiad sy'n berthnasol i ddyfarniad gradd arbennig neu gymhwyster arall (h.y. mae'r term 'safonau' yn ymwneud â chyrhaeddiad a gafwyd neu'r cyrhaeddiad yr anelir amdano, wedi'i fynegi yn nhermau dyfarniadau o wahanol lefelau a, lle bo'n berthnasol, yn nhermau gwahanol gategoriâu mewn dyfarniad penodol);
- 'sicrhau ansawdd': y broses a ddefnyddir i asesu, cynnal a gwella (inter alia, drwy rannu ymarferion da) ansawdd a safonau, yn ogystal â'r trefniadau gweinyddol a threfniadau eraill sy'n tanategu'r rhain, a'r broses a ddefnyddir i ymdrin yn gyflym ac yn effeithiol ag unrhyw ddarpariaeth annerbyniol'.

26 Yn yr SED, disgrifiodd y Brifysgol Ffederal, fel y corff dyfarnu graddau, sut mae'n cadw ei chyfrifoldeb am safonau academaidd fel y maent yn 'perthyn i gyrhaeddiad a gafwyd a chyrhaeddiad yr anelir amdano wedi'i fynegi yn nhermau '...lefelau dyfarniad...ac yn nhermau...categoriâu mewn dyfarniad penodol'. Hefyd, nododd y Brifysgol ei chyfrifoldebau fel 'amddiffyn, cynnal a gwella safonau ei dyfarniadau academaidd', cyfrifoldeb mae'n ei gyflawni mewn partneriaeth â'i sefydliadau. Yn Fframwaith Academaidd y Brifysgol mae'r Brifysgol Ffederal wedi sefydlu agwedd 'mewn camau' tuag at ei gweithdrefnau ar gyfer sicrhau ansawdd ei rhaglenni a safonau academaidd ei dyfarniadau sy'n adlewyrchu 'aeddffedrwydd academaidd' y sefydliadau sy'n cynnig ei dyfarniadau. Mae'r Brifysgol yn dirprwyo 'amrediad sylweddol o swyddogaethau' i aelodau llawn a sefydliadau mwy aeddffed ond mae'n

parhau i gynnal perthynas fwy 'ymarferol' gyda'i Sefydliadau Cysylltiol a rheolaeth agosach mewn perthynas â'i darpariaeth sydd wedi'i dilysu. Dangosodd yr SED fod y Brifysgol yn dal i gyfranogi hefyd mewn materion sicrhau ansawdd yn gyffredinol drwy 'ei gwaith i ddatblygu'r sefydliadau cysylltiol a'i darpariaeth gydweithredol', drwy waith ei phwyllgorau mawr, a thrwy ei 'swyddogaeth fel prif hwylusydd ymarferion da'.

27 Yn ei SED dywedodd y Brifysgol ei bod 'yn hyderus y bydd...y Fframwaith Academaidd yn parhau i ddiogelu ei statws cenedlaethol a rhyngwladol ar y sail bod gan y Brifysgol, a'r sefydliadau sy'n cynnig ei dyfarniadau, ddi-ddordeb a chyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau bod safonau academaidd wedi'u cynnal a bod enw da'r dyfarniadau hynny wedi'i gadw a'i wella'.

28 Darparodd yr SED grynoded o'r mecanweithiau, y gweithdrefnau a'r prosesau y mae'r Brifysgol yn eu nodi fel rhai sy'n tanategu ei gallu i fonitro'r gwaith o sicrhau safonau academaidd ei dyfarniadau. Mae'r rhain i'w gweld yng nghytundeb y Fframwaith Academaidd a dogfennaeth gysylltiedig sy'n sail i'r berthynas ffederal gyda sefydliadau. Mae'r mecanweithiau'n cynnwys:

- darparu a chynnal fframwaith rheoliadol cyffredinol ar gyfer ei dyfarniadau sy'n ymgorffori rheoliadau'r Brifysgol, archebion sefydlog gofynnol y Brifysgol, meini prawf y dyfarniadau a dogfennau arweiniad a dogfennau trefniadol cysylltiedig;
- manylu'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd lleiaf y mae'n rhaid i'r holl sefydliadau eu mabwysiadu ac adolygu dogfennaeth sicrhau ansawdd sefydliadol ac adroddiadau asesiad ac archwiliadau allanol;
- adolygu adroddiadau, a rhyngweithio gydag, arholwyr allanol;
- cymryd rhan yng ngweithdrefnau'r cynlluniau astudio a ddysgir a chymryd rhan weithredol mewn cymeradwyo cynlluniau astudio newydd;
- darparu gweithdrefn apeliadau academaidd annibynnol a gosod canllawiau ar gyfer trin ymarferion annheg;
- gweinyddu swyddogaethau arholi a graddio.

29 Roedd yr SED yn amlinellu swyddogaeth arholwyr allanol, cynghorwyr ac ymgynghorwyr allanol fel y maent yn cyfrannu at sicrhau safonau academaidd yn yr aelod-sefydliadau a'r sefydliadau sydd wedi'u dilysu a sefydliadau cysylltiol y Brifysgol. Dywedodd yr SED fod perthynas y Brifysgol gydag arholwyr allanol yn 'elfen allweddol' yn y gwaith o

fonitro a gwarantu safonau. Mae'r Brifysgol yn cynhyrchu codau ymarfer ar gyfer arholwyr allanol ac mae wedi gwahaniaethu gweithdrefnau ar gyfer derbyn, trafod a gweithredu materion a godir gan arholwyr allanol o'i haelod sefydliadau a sefydliadau cysylltiol a gan ei darpariaeth sydd wedi'i dilysu. Ond, nid yw'r Brifysgol yn cynhyrchu llawlyfr ar gyfer staff academiaidd sy'n integreiddio agendau gwella a sicrhau ansawdd gyda'r ddogfennaeth reoliadol a gweithdrefnol sydd wedi'i chynnwys ar hyn o bryd yn Llawlyfr Staff y Gofrestrfa, ac ym marn y tîm adolygu byddai'n helpu staff academiaidd pe gallent gael gafael ar yr holl wybodaeth y maent ei hangen o un ffynhonnell. Ond, mae'r Gofrestrfa yn cyhoeddi pecyn dosbarthu blynyddol i safonwyr ac arholwyr allanol ac i sefydliadau sy'n darparu ei darpariaeth ddilysedig. Mae hwn yn cynnwys dogfennaeth gefnogol a rheoliadol, canllawiau'r Brifysgol a defnyddiau perthnasol.

30 Yng nghyd-destun y cyfrifoldebau a gedwir gan Brifysgol Cymru fodd bynnag, a'r rheini sydd wedi'u dirprwyo i'w haelod-sefydliadau, amlinellodd yr SED nifer o elfennau sy'n perthyn i'w gilydd sy'n cyfrannu at y ffordd y mae'n arolygu gwaith monitro ei safonau academiaidd a rheolaeth sicrhau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Strwythur pwyllgor Prifysgol Ffederal Cymru;
- Grwpiau gweithio a gweithgorau Prifysgol Cymru;
- Gwneud adolygiadau mewnol ac allanol Prifysgol Cymru a thrwy fonitro mecanweithiau adolygu;
- staff Cofrestrfa Prifysgol Cymru a'r staff hynny sydd wedi'u lleoli mewn sefydliadau sydd â chyfrifoldebau sicrhau ansawdd a safonau academiaidd;
- pwyllgorau sefydlog a Chadeiryddion Pwnc Prifysgol Cymru; a
- dogfennaeth gefnogol sydd wedi'i chynhyrchu mewn amrywiaeth o ffurfiau a dilyniannau cynhyrchu a dosbarthu, ac sy'n cynnwys gwefan a gohebiaeth drwy e-bost.

Barn y tîm adolygu

31 Pennodd yr SED gyfrifoldeb am gymeradwyo graddau ymchwil newydd, cynlluniau astudio wedi'u dysgu a datblygiadau cynllun, sydd i gael eu darparu mewn aelod-sefydliadau, fel rhai wedi'u datganoli i'r aelod-sefydliad perthnasol ynghyd â chyfrifoldeb am adolygiadau cyfnodol a materion ansawdd academiaidd. Mae hyn yn rhan o gytundeb Fframwaith Academiaidd y Brifysgol. Mae gan y Brifysgol rôl o hyd mewn rheoli safonau academiaidd Sefydliadau Cysylltiol, aelod bartneriaid a phartneriaid

cydweithredol ac, yn ychwanegol at hynny, mae wedi cadw ei rôl mewn sicrhau ansawdd ymhob un o'i sefydliadau ynghyd â rheolaeth fanylach ar y ffordd y caiff ansawdd academiaidd y ddarpariaeth sydd wedi'i dilysu ei fonitro. Rhoddwyd llawer o bwyslais ar y Fframwaith Academiaidd drwy'r SED i gyd, er bod y tîm adolygu wedi nodi fod prif bwrpas y Fframwaith ar gyfer aelod-sefydliadau wedi'i gyfyngu i nodyn atgoffa bod sefydliadau'n atebol i drefniadau cenedlaethol ar gyfer asesu ac arolygu ansawdd ac y dylent ddarparu dogfennaeth i'r Brifysgol o'u gweithdrefnau ac o adroddiadau gan gyrrff cenedlaethol.

32 Yng nghyd-destun cyfrifoldebau'r Brifysgol a ddisgrifiwyd yn y SED ac a'u hymgorfforwyd yn y Fframwaith Academiaidd, roedd y tîm adolygu'n ystyried bod strwythurau pwyllgor y Brifysgol, cefnogaeth i swyddogaethau'r Gofrestrfa, prosesau cyfathrebu a gweithdrefnau, polisiâu a strategaethau rheoli, yn ganolog i ddealltwriaeth o'r ffordd mae materion sicrhau ansawdd a safonau academiaidd wedi'u rheoli'n effeithiol yn y Brifysgol. Roedd yr SED yn darparu diagram defnyddiol o strwythur pwyllgorau'r Brifysgol. Roedd hyn wedi'i ategu gan fanylion ychwanegol oedd yn dangos llinellau cyfathrebiad a chyfrifoldebau adrodd pwyllgorau'r Brifysgol a grwpiau eraill.

33 Mae gan y Brifysgol Gyngor, Llys Prifysgol a Bwrdd Academiaidd. Mae Bwrdd yr Is-Ganghellor yn adrodd i Gyngor y Brifysgol fel y mae'r Bwrdd Academiaidd. Y prif is-bwyllgorau gyda chyfrifoldeb am safonau academiaidd a materion sicrhau ansawdd sy'n adrodd i'r Bwrdd Academiaidd yw'r CAS, y Bwrdd Dilysu, yr RSCC, Byrddau Apelio a Phwyllgorau Sefydlog y Brifysgol.

34 Roedd yr SED yn pennu'r Bwrdd Academiaidd fel yr 'awdurdod academiaidd gorau' ac yn dweud ei fod yn gyfrifol am 'yr holl faterion academiaidd sy'n rhan o gymalau'r Brifysgol'. Mae cyfansoddiad ac amodau gorchwyl y Bwrdd Academiaidd wedi'u hadolygu'n ddiweddar i gynnwys 'cyfrifoldeb uniongyrchol am arolygiad yr holl faterion sy'n ymwneud â safonau academiaidd', a hysbyswyd y tîm adolygu bod newid sylweddol wedi digwydd yn y ffordd y mae'r Bwrdd yn gwneud busnes, bod ffocws y drafodaeth a'r diddordeb mewn safonau academiaidd a materion sicrhau ansawdd yn symud o bwyslais gweithdrefnol 'stamp rwber' i ffocws mwy ymglymedig ar safonau academiaidd a busnes sicrhau ansawdd.

35 Mae agenda safonau academiaidd y Bwrdd Academiaidd wedi cynnwys arolygiaeth a thrafodaeth am adroddiadau gan Fyrddau Apeliadau'r Brifysgol, ystyriaeth i adroddiadau sefydliadol Asiantaethau unigol, archwiliad o

gwynion myfyrwyr a gwelliant yn y gweithdrefnau i drin llên-ladrad. Hefyd, dangosodd y SED fod y Bwrdd yn ystyried materion ar hyn o bryd sy'n ymwneud â chynlluniau categoreiddiad, cywerthedd marcio a graddio perfformiad academiaidd, a chonfensiynau marcio o fewn y Brifysgol.

36 Nododd y tîm adolygu fod y Bwrdd Academiaidd yn ystyried hefyd sut y gallai ddatblygu 'ei swyddogaeth mewn safonau academiaidd' drwy gyfranogiad ag iddo strwythur mwy cadarn mewn 'adolygiadau cyfnodol sefydliadau' a'i fod yn gweithredu ymarfer samplio i ystyried adroddiadau arholwyr allanol llawn mewn cymhariaeth â'i weithdrefnau presennol. Mae'r Brifysgol hefyd yn bwriadu datblygu ei chyfranogiad sicrhau ansawdd gyda'i sefydliadau drwy dderbyn SED drafft yr Asiantaeth a thrwy ystyried adroddiadau adolygu sefydliadol yr Asiantaeth sy'n delio â sefydliadau'r Brifysgol.

37 Mae CAS wedi'i sefydlu'n ddiweddar ac wedi'i ddarparu gyda chylch gorchwyl diwygiedig sy'n cymryd lle cylch gorchwyl y CAQS blaenorol. Mae'n ddyletswydd ar y CAS helpu'r 'Bwrdd Academiaidd i gynnal a gwella safonau academiaidd'. Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys cynghori'r Bwrdd Academiaidd ar faterion sy'n ymwneud â safonau academiaidd dyfarniadau'r Brifysgol, drafftio nodiadau arweiniad a chodau ymarfer fel y maent wedi'u cyfarwyddo gan y Bwrdd Academiaidd, monitro mentrau'r Asiantaeth yn unol â'r Bwrdd Academiaidd a helpu'r Bwrdd Academiaidd i arolygu gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol sefydliadau. Mae gan y CAS y rôl o sicrhau ansawdd a safonau academiaidd arbennig yn y ffordd mae'n derbyn ac yn monitro esboniadau ar adroddiadau arholwyr allanol ac yn derbyn crynodebau o faterion a godwyd gan arholwyr allanol sy'n berthnasol i faterion y Brifysgol Ffederal.

38 Hefyd mae ffocws safonau academiaidd a sicrhau ansawdd y CAS wedi cynnwys ystyriaeth o weithdrefnau ar gyfer cynlluniau astudio newydd ac adolygiad o gynlluniau astudio; arolygiad o lawlyfrau sicrhau ansawdd sefydliadau; gweithdrefnau ar gyfer monitro adborth gan y myfyrwyr; ac ystyriaeth o fentrau datblygu dysgu ac addysgu. Hefyd, mae'r Pwyllgor wedi dweud yn ddiweddar beth yw cyfraniad y Brifysgol mewn strategaethau gwella ansawdd a datblygiad academiaidd rhwng y sefydliadau. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant ar gyfer goruchwylwyr graddau ymchwil, ystyried strategaethau Cywerthedd a Meincnodi a phapurau gan bwyllgor sefydlog y Brifysgol ar Ddysgu Gydol Oes.

39 Roedd y tîm adolygu'n cydnabod y newid mewn pwyslais yr oedd tystiolaeth ohono yng

ngwaith y Bwrdd Academiaidd a'r CAS fel ei gilydd, a ffordd esblygiadol y CAS o ddechrau ymgorffori materion safonau ac ansawdd academiaidd integredig yn ei gylch gwaith. Ond, ni allai'r tîm bennu unrhyw strategaeth drosfwaol oedd yn darparu fframwaith ar gyfer pennu mentrau, yr oedd pob un ohonynt yn ymddangos fel pe baent wedi'u cynhyrchu'n unigol. Er bod y mentrau yma'n darparu ffordd i'r Brifysgol allu dechrau cydlynu ei swyddogaeth yn fwy effeithiol, daeth y tîm i'r casgliad ei bod hi'n aneglur i ba gyfeiriad yr oedd y Brifysgol yn mynd yng nghyswllt ei statws yn y dyfodol mewn perthynas ag ansawdd a safonau. Er enghraifft, gellid ystyried fod bwriad y Bwrdd Academiaidd i ymwneud yn fwy ag adolygiadau cyfnodol mewn sefydliadau yn symudiad defnyddiol tuag at arolygiaeth fwy eglur gan y Brifysgol yn y ffordd mae sefydliadau yn darparu'r Fframwaith Academiaidd. Ond nid yw'n ymddangos bod y fenter yn rhan o unrhyw farn gyffredinol ynghylch y lefel isaf o gyfranogaeth y dylai'r Brifysgol ei sicrhau yng ngwaith y sefydliadau, ac ni allai'r tîm bennu sut y byddai'r datblygiad yma'n berthnasol i'r Fframwaith Academiaidd, na sut y mae'n adlewyrchu nod y Brifysgol o gefnogi sefydliadau drwy ddiogelu safonau 'gyda'r rhagnodiad neu'r amhariad angenrheidiol lleiaf angenrheidiol gan y ganolfan', neu sut mae'n berthnasol i 'gyfrifoldeb cyfunol' y sefydliadau. Roedd y tîm yn ystyried bod angen gosod gwaith y ddau bwyllgor yn gadarnach mewn cylchred cynllunio academiaidd blynyddol.

40 Mae Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Brifysgol yn ystyried materion safonau academiaidd mewn dau faes penodol. Mae'r Pwyllgor yn rheoli'r fframweithiau rheoliadau ar gyfer yr holl gynlluniau astudio, yn cynnwys gosod safonau cyrhaeddiad trothwy, ac yn delio gydag achosion arbennig sy'n codi y tu allan i'r fframwaith rheoli. Mae ganddo hefyd rôl mewn rheoli prosesau arholi ac asesu ac mewn ystyried adrannau perthnasol o'r *Fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon (FHEQ)* a'r *Côd ymarfer ar gyfer sicrhau safonau ac ansawdd academiaidd mewn addysg uwch (Côd ymarfer)*, wedi'i gyhoeddi gan yr Asiantaeth (edrychwch isod, paragraff 66).

41 Mae darpariaeth gydweithiol, wedi'i chategoreiddio gan y Brifysgol fel darpariaeth sydd wedi'i dilysu neu ddarpariaeth sydd wedi'i hetholfreinio, yn elfen arwyddocaol o bortffolio'r Brifysgol. Mae wedi'i rheoli drwy Fwrdd Dilysu sy'n bodoli i gynghori'r Brifysgol drwy'r Bwrdd Academiaidd ar bob mater sy'n ymwneud â dilysiad ac etholfreinio cynlluniau astudio sy'n arwain at ddyfarniad Prifysgol Cymru. Mae gan y Bwrdd yma

dri is-bwyllgor, y Pwyllgor Gweithredol, y Pwyllgor Astudiaethau Iechyd a'r Grŵp Cynghori am Gynllunio. Mae'r Uned Ddilysu ganolog sydd wedi'i seilio yng Nghofrestrfa'r Brifysgol (edrychwch isod, paragraff 93), yn darparu cefnogaeth weithredol a gweinyddol ar gyfer gweithgareddau'r Bwrdd Dilysu.

42 O ganlyniad i natur ganolog yr Uned a'r Bwrdd Dilysu a natur ffederal y Brifysgol, nid oes cysylltiad ffurfiol rhwng y partneriaid sy'n darparu rhaglenni wedi'u dilysu ac adrannau yn y Brifysgol sy'n cynnig darpariaeth debyg. Mae'r cysylltiad gyda'r Brifysgol drwy un o safonwyr y Brifysgol. Mae'r safonwyr yn aelodau wedi'u penodi o staff y Brifysgol, o adran sy'n cynnig rhaglenni tebyg fel arfer. Mae eu tasgau yn cynnwys cysylltu, gweithdrefnau monitro ar fyrddau arholi, darparu cyngor academiaidd, darparu swyddogaeth sicrhau ansawdd a chyflwyno adroddiad blynyddol i'r Brifysgol. Ar gyfer darpariaeth wedi'i hetholfreinio mae cysylltiadau uniongyrchol rhwng yr etholfreiniwr (aelod o'r Sefydliadau Cysylltiol) a'r partner, am fod cymaint o'r cyfrifoldeb am y gweithgaredd yma wedi'i ddirprwyo i'r sefydliad perthnasol.

43 Ym marn y tîm adolygu mae'r trefniadau ar gyfer rheoli gweithgareddau wedi'u dilysu a'u hetholfreinio drwy'r Bwrdd Dilysu a'i is-bwyllgorau yn addas, ond maen nhw hefyd yn nodi nad yw partneriaid cydweithiol sydd wedi'u dilysu yn elwa o gysylltiadau ffurfiol gydag adran yn y Brifysgol a'r cyfleoedd datblygiadol y byddai hyn yn eu darparu.

44 Mae gan y Brifysgol nifer o is-bwyllgorau, pwyllgorau sefydlog a gweithgorau ychwanegol sy'n cyfrannu at ei fframwaith sydd wedi'i fwriadu ar gyfer rheoli safonau a sicrhau ansawdd. Mae'r rhain yn cynnwys Gweithgor y Brifysgol ar Fodwlaeiddiad sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad cynlluniau CAT a Modwlaeiddiad y Brifysgol, ac adolygiad o weithdrefnau achrediad dysgu drwy brofiad blaenorol (APEL) y Brifysgol, a Grŵp Uwch-arylygwyr Arholiadau'r Brifysgol sy'n adrodd i'r RSCC ar reolaeth effeithiol arholi ac asesu. Mae Grŵp Uwch-arylygwyr Arholiadau'r Brifysgol wedi ystyried, gyda phwyllgorau eraill, agweddau penodol o'r Côt Ymarfer, Adran 6: *Asesiad o'r myfyrwyr*. Hefyd, mae'r Brifysgol wedi ffurfio Grŵp Rhyngwyneb Cofrestrfeydd Academiaidd yn ddiweddar sy'n gweithredu fel fforwm anffurfiol ar gyfer gwerthuso materion gweinyddol.

45 Mae yna 20 o Gadeiryddion Pwnc Prifysgol (USC) sy'n gallu galw cyfarfodydd *ad hoc* fel y bo'n ofynnol. Mae yna dri Phwyllgor Sefydlog Pwnc, mewn Addysg, Dysgu Gydol Oes, a Phroffesiynau sy'n Gysylltiedig â Meddygaeth, sydd wedi'u cadeirio

gan yr USC priodol. Mae gan yr USC y cyfrifoldeb am gymeradwyo goruchwylwyr ac arholwyr allanol mewn sefydliadau cysylltiol a chyfrifoldebau cymeradwyo gweithredol am gynigion cynlluniau gan sefydliadau cysylltiol yn dilyn cwblhau gweithdrefnau mewnol y mae cynrychiolwyr pwnc y Brifysgol yn gyfrannog ynddynt.

Ond fe nododd y tîm adolygu nad yw'r USC yn ymwneud ar y cyd â datblygu safonau academiaidd neu strategaethau datblygu sicrhau ansawdd fel grŵp rheoli cydlynol ac mae'n ymddangos nad oes ganddynt gyfle ar y cyd i gyfrannu at ffocws academiaidd strategol y materion sicrhau ansawdd ar lefel y ddisgyblaeth drwy'r Brifysgol. Credai'r tîm fod hyn yn gyfle a gollwyd i rannu ymarferion da ac i ddatblygu agwedd gyffredin drwy'r Brifysgol i gyd tuag at ddarpariaeth wedi'i dilysu.

46 Mae'r Pwyllgor Sefydlog ar gyfer Dysgu Gydol Oes, ar gyfer Addysg, ac ar gyfer Proffesiynau sy'n Gysylltiedig â Meddygaeth yn gyfrifol am y cysylltiad rhwng y Brifysgol a'r cyrff proffesiynol sy'n gyfrifol am safonau academiaidd ac achrediad proffesiynol yn y meysydd yma. Mewn ymateb i strategaethau cenedlaethol ar gyfer datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg mae'r Brifysgol wedi ehangu gwaith Bwrdd Addysgu Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol hefyd, ac mae hwn wedi cymryd swyddogaeth ragweithiol mewn gweithgareddau arweinyddiaeth broffesiynol yn y sector yma. Mae ei agenda safonau a sicrhau ansawdd wedi'i ddwyn ymlaen yn yr un modd yn ffurfiad yr Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg a mentrau gwella ansawdd dilynol yng nghydlynad gweithredu strategaeth genedlaethol, Dysgu Gydol Oes, rheoli'r sector, a gofynion asiantaeth safonau a sicrhau ansawdd cenedlaethol.

47 Bu'r tîm adolygu'n trafod y ffordd yr oedd y strwythur rheoli'n gweithio a swyddogaethau'r pwyllgorau, ynghyd â'u safbwynt am eu swyddogaethau perthnasol, gyda staff Prifysgol Cymru a gyda chynrychiolwyr o aelod-sefydliadau, sefydliadau wedi'u dilysu a sefydliadau cysylltiol. Dywedwyd wrth y tîm am y cyfrifoldebau a'r swyddogaethau cyflenwol oedd yn bodoli rhwng y Brifysgol a'i sefydliadau, ac o'r pryder oedd gan y Brifysgol am beidio â dyblygu 'mecanweithiau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliadau cysylltiol a'r aelod-sefydliadau' neu gyrff allanol.

48 Dywedwyd wrth y tîm adolygu am y drafodaeth strategol gyfredol ynghylch yr angen am 'newid radical yn natur y berthynas rhwng y Brifysgol a'r sefydliadau' ac mai'r pwynt cychwyn ar gyfer hynny fyddai 'diffinio'r swyddogaethau a'r rolau y dylai'r Brifysgol eu gweithredu yn y dyfodol'. Hefyd,

gwnaed y tîm yn ymwybodol o nifer o fentrau fyddai'n galluogi'r Brifysgol i edrych ar ddatblygu ei swyddogaeth mewn monitro safonau academiaidd. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogaeth y Brifysgol mewn ffordd 'ag iddi fwy o strwythur' mewn adolygiadau cyfnodol sefydliadau ac wrth samplu adroddiadau llawn arholwyr allanol ar gyfer ei haelod-sefydliadau lle, ar hyn o bryd, mae'r Brifysgol yn derbyn adroddiadau gwirfoddol yn unig gan elfennau allanol ar faterion o 'bryder neu ddiddordeb ffederal'. Er eu bod yn cydnabod fod y Brifysgol erbyn hyn yn datblygu ar 'bapur glân' ei diffiniad o swyddogaethau, cydberthnasau a swyddogaethau rhwng y Brifysgol a'i hetholaethau, bydd angen strategaeth drosfwaol ar gyfer rheoli'r swyddogaethau sy'n berthnasol i safonau academiaidd a sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cydlynol a chadarn yn eu diffiniad a'u gweithrediad, ac er mwyn gallu cynnwys mentrau unigol mewn cynllun strategol.

49 Wrth ystyried y ffordd yr oedd strwythurau gweithredol y Brifysgol yn gweithio, roedd hi'n amlwg bod Cofrestrfa'r Brifysgol a gwasanaethau cynnal canolog yn darparu cyngor ar faterion rheoliadol, gweithdrefnol a materion eraill, yn cynnwys ymholiadau am apeladau academiaidd ac ymholiadau am ddarpariaeth gydweithredol, 'pryd bynnag y bo hynny'n ofynnol'. Mae Cofrestrfa'r Brifysgol yn cynhyrchu dogfennau strategol bob pum mlynedd ac yn diweddar rheoliadau, canllawiau gweithdrefnol a dogfen gytundeb y Fframwaith Academiaidd bob blwyddyn. Hefyd, mae'r Gofrestrfa'n cynhyrchu llythyr dosbarthu blynyddol a phhecyn cefnogi ar gyfer arholwyr allanol, safonwyr a sefydliadau wedi'u dilysu ac mae gohebiaeth reolaidd ar yr e-bost sydd wedi'i atodi gan gynnwys gwefan ar faterion gweinyddol a rheoliadol.

50 Daeth darlun i'r amlwg o sefydliad sy'n weinyddol gan fwyaf sy'n treulio amser sylweddol ac ymrwymiad i gynnyg arweiniad, diweddarau gweithdrefnau a rheoliadau, ac ymateb i ymholiadau oedd yn codi gan sefydliadau wedi'u dilysu ac aelod-sefydliadau a sefydliadau cysylltiol. Ond, nid oedd y tîm adolygu'n gallu dirnad polisi sydd wedi'i gymhwyso a'i integreiddio'n gyson ac yn gydlynol mewn perthynas â gweithrediad, monitro a chadarnhad o'r holl ofynion integredig a gweithdrefnol sydd wedi'u cynnwys mewn cyfathrebiadau gan y Brifysgol i'w sefydliadau. Er bod rhywfaint o fonitro wedi digwydd roedd hi'n amlwg bod disgwyl i aelod-sefydliadau nodi'r hyn a ddisgwylid ganddynt a gweithredu yn y ffordd briodol.

51 Nid yw'r Brifysgol yn cynhyrchu llawlyfr blynyddol sy'n pennu gofynion strategol a gweithredol ar gyfer cynnal safonau academiaidd a

sicrhau ansawdd. Ni allai'r tîm adolygu, o gydnabod yr agenda eang sydd wedi'i weithredu gan bwyllgorau'r Brifysgol, bennu dadansoddiad strategol eglur a rheolaidd o'r gwaith a wna'r Brifysgol neu adnabyddiaeth ddilynol o, ac adlewyrchiad ar, wella a diffinio polisi gofynnol.

52 Er bod aelodaeth pwyllgorau'r Bwrdd Academiaidd a Bwrdd yr Is-Gangellor yn briodol ar gyfer eu cylch gwaith, canfu'r tîm adolygu fod cyfyngiadau sylweddol wedi bodoli yn y gorffennol ar aelodaeth rhai o is-bwyllgorau mawr y Bwrdd Academiaidd. Byddai'r ehangiad diweddar yn aelodaeth y CAS i gynnwys aelodau academiaidd o bob sefydliad yn un ffordd i'r Brifysgol allu integreiddio cyfraniadau academiaidd ehangach i'r gwaith o fonitro materion sicrhau ansawdd a safonau drwy'r Brifysgol Ffederal i gyd. Hefyd, nododd y tîm gyfraniad unigol ac ymroddedig y myfyrwyr i waith pwyllgorau'r Brifysgol; ond, er bod cyfranogiad a sylwadau'r myfyrwyr am eu profiad yn amlwg ar lefel y sefydliadau unigol, teimlai'r tîm fod angen i'r Brifysgol adlewyrchu ar sicrhau cynrychiolaeth ddigonol a sicr ymysg y myfyrwyr ar lefel pwyllgorau'r Brifysgol er mwyn sicrhau adlewyrchiad digonol o brofiad y myfyrwyr yn y Brifysgol.

53 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad fod y Brifysgol Ffederal wedi derbyn adolygiadau allanol sylweddol a bod strwythur y pwyllgorau a'u hamodau gorchwyl a'u cylchoedd gwaith wedi eu hadolygu'n dda o ganlyniad i hynny. Ar ben hynny, roedd angen i adolygiadau dilynol a gafwyd mewn ymateb i ofynion allanol a chyd-destunau newidiol, gymryd agwedd fwy integredig tuag at arweinyddiaeth academiaidd a gweinyddol ar gyfer gweithgareddau ffederal y Brifysgol oedd yn canolbwyntio ar weithgareddau sicrhau ansawdd a safonau academiaidd. Er bod cytundeb y Fframwaith Academiaidd a strwythurau'r Brifysgol Ffederal yn gyfatebol â natur ddeuol y Brifysgol Ffederal, roedd angen sefydlu polisi mwy cydlynol erbyn hyn ar gyfer rheoli'r 'swyddogaethau a'r rolau' o fewn y Brifysgol yn strategol er mwyn helpu cyfeiriad a sicrwydd ei safonau academiaidd a'i chyfrifoldebau sicrhau ansawdd yn y dyfodol.

Gwella ansawdd a safonau

54 Nid oedd y SED yn nodi unrhyw agenda gwella penodol ond roedd yn trafod rôl y Brifysgol mewn gwella safonau ac ansawdd drwy ddisgrifio amrywiaeth o fentrau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Pennwyd nifer o weithgareddau sydd ar y gweill ac elfennau i ganolbwyntio arnynt mewn gweithgareddau yn y dyfodol. Roedd y SED yn darparu cyd-destun cyffredinol ar gyfer ei

ystyriaethau gwella sydd wedi'i seilio ar y 'diddordeb cyfatebol mewn a'r cyfrifoldeb ar y cyd am sicrhau bod safonau academaidd wedi'u cyrraedd a bod enw da... [Prifysgol Cymru]...wedi'i gadw a'i wella'. Ond, nid oedd y SED yn cynnwys ffurfiad cynhwysfawr o dargedau gwella penodol gyda chynlluniau gweithredu a dyddiadau ar gyfer gweithredu ac adolygu maes o law mewn agenda rheoli strategol. Er bod y SED yn dangos ei fod yn disgwyl gwelliannau nid oeddent yn amlwg berthnasol bob amser i'w cyfraniad uniongyrchol tuag at wella ansawdd, sicrhau ansawdd neu safonau academaidd.

55 Dyma rai o'r mentrau a bennwyd gan y tîm adolygu yn dilyn trafodaeth gyda staff:

- ymarferion peilot yn cynnwys ail ystyried y ffordd y gwneir yr adolygiad cyfnodol, yn cynnwys cyfranogiad cynrychiolwyr pwnc y Brifysgol, a'r bwriad i ddatblygu agwedd wedi'i harwain gan welliant gan y Brifysgol Ffederal i gyfranogiad y Brifysgol mewn adolygiad cyfnodol;
- cyflwyno gweithdrefnau Apelio a Gwiriad interim ar gyfer cynlluniau astudio wedi'u dilysu er mwyn cadw'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i safonau academaidd yn gyson;
- yr RSCC i ddiweddarau'r Gweithdrefnau Ymarfer Annheg bob blwyddyn er mwyn sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth Ewropeaidd a gofynion eraill;
- ailystyried egwyddorion a'r system o adolygiadau mewnol a'u cyfraniad i weithdrefnau ac ymarferion gwella gyda gwerthusiad dilynol o weithrediad y canlyniadau;
- ystyriaeth a defnydd parhaus o ddadansoddiad rheolaeth risg fel y mae'n berthnasol i gyfleoedd gwella a safonau academaidd.

56 Hefyd, nododd y tîm adolygu pa weithrediadau rheoli a gwella sy'n cael eu gweithredu ar Fwrdd Addysgu Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol a chânt eu gweithredu drwy'r Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg y mae eu mentrau yn cynnwys:

- sefydlu rhwydwaith o banelau pwnc sy'n berthnasol i agweddau o'r pynciau a'r disgyblaethau er mwyn cynllunio ehangiad a gwelliant i ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar sail strategol;
- creu cronfa ddata o arholwyr iaith Gymraeg (ar y cyd gyda'r CAS);
- lansio e-newyddion a gwefan sydd wedi'u neilltuo i gyhoeddi newyddion academaidd ac sy'n cefnogi darpariaeth Cyfrwng Cymraeg;

- gosod amcanion ar gyfer ffurfio'r strategaeth datblygu staff, yn cynnwys cynlluniau cymrodoriaeth ac ysgoloriaeth sydd wedi'u hanelu at wella safonau a darpariaeth addysgu Cyfrwng Cymraeg.

57 Pennodd y SED dargedau gwella penodol y Bwrdd Dilysu sydd wedi'u lleoli mewn rhaglen dair blynedd i'w hystyried a'u gweithredu. Maen nhw'n cynnwys:

- ystyriaeth bellach o'r adroddiad adolygu etholfraint a dilysiad;
- cyflwyno cyfarfodydd ffurfiol o'r bwrdd astudiaethau ar gyfer cynlluniau astudio wedi'u dilysu er mwyn gwella'r strwythur adrodd i'r Bwrdd Dilysu;
- cyflwyno cyfleusterau adnodd dysgu ar-lein y mae'n hawdd i'r myfyrwyr gael gafael arnynt;
- gwella'r canllawiau ar gyfer cynlluniau astudio dysgu o bell ac ystyried y gofynion ar gyfer darparu sgiliau allweddol;
- parhau â'r gweithdai pwnc ar gyfer canolfannau wedi'u dilysu ar faterion gwella sy'n gysylltiedig â'u darpariaeth;
- cyflwyno system cofnodion myfyrwyr newydd gyda gwerthusiad dilynol o'r defnydd priodol a wneir o wybodaeth ystadegol a'i chyfraniad at faterion sicrhau ansawdd a rheoli safonau;
- cyflwyno canllawiau ymarfer asesu sy'n fwy cynhwysfawr.

58 Hefyd nododd y tîm adolygu yr ethos gwelliant cynyddol ac esblygol oedd wedi'i adlewyrchu yn y ddogfennaeth ac mewn trafodaeth gyda staff y Brifysgol a'r sefydliadau. Daeth hi'n amlwg fod Pwyllgorau Sefydlog y Brifysgol sy'n gyfrifol am Addysg, Proffesiynau sy'n Gysylltiedig â Meddygaeth a Dysgu Gydol Oes yn mabwysiadu agwedd strategol a gweithrediadol tuag at wella yn eu cylch gorchwyl. Mae gan yr ystyriaeth ragweithiol yma o gyfleoedd gwelliant y potensial i gael effaith bositif ar swyddogaeth pwyllgorau sefydlog y Brifysgol a'u gallu potensial i gyfrannu at agenda'r gwelliant yn y Brifysgol gyfan. Roedd gwaith y CAS a'i gyfranogiad mewn trafodaethau am wella yn ymwneud â Dysgu Gydol Oes, Asesiad a Chreu Cywerthedd, Meincnodi a gwella Dysgu ac Addysgu - drwy Fforwm Addysgu a Dysgu Cymru gyfan - yn cynnig arwyddion tebyg o'r ffordd yr oedd cyfleoedd i gefnogi gwelliant yn cael eu datblygu o fewn y Brifysgol.

59 Daeth yn amlwg yn y trafodaethau gyda staff bod ail ddiffinio cylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd, sefydlu Bwrdd yr Is-Ganghellor, oedd

yn ail ystyried swyddogaethau erbyn hynny, cydberthnasau a swyddogaethau o fewn y Brifysgol, a'r cylch gwaith oedd yn datblygu ar gyfer y CAS, yn annog ffocws o fewn strwythurau pwyllgorau'r Brifysgol oedd wedi'i arwain fwy gan welliant. Ond, barn y tîm adolygu oedd hi fod y newidiadau yma mewn pwyslais yn ddarniog a bod angen eu gwneud yn fwy eglur a'u gosod mewn fframwaith rheoli strategol fyddai'n caniatáu i bob esiampl o gyfleoedd i wella a datblygiad gael eu cyhoeddi a'u hadolygu'n rheolaidd o fewn ffocws corfforaethol a chylch cynllunio'r Brifysgol.

Cymeradwyaeth, monitro ac adolygiad mewnol

60 Mae'r gwaith o gymeradwyo rhaglenni astudio wedi'i drosglwyddo i'r sefydliadau. Mae'r Brifysgol yn dweud bod rhaid i weithgareddau dilysu mewnol gynnwys cynrychiolydd pwnc sydd wedi'i gymeradwyo gan yr USC sy'n gorfod derbyn adroddiad y dilysiad. Ar gyfer Sefydliadau Cysylltiol mae'n rhaid i'r Cadeirydd Pwnc deimlo'n fodlon fod trefn gymeradwyo'r cwrs wedi'i dilyn yn gywir. Mae canllawiau'r Brifysgol ar gyfer adroddiadau yn cynnwys rhestr lawn o aelodaeth y panel gyda disgrifiad o'u safle. Nododd yr SED bod cynrychiolydd y pwnc yn helpu i sicrhau cysondeb y safonau yn y Brifysgol ac yn cynyddu'r pwyslais ar gyfranogiad o'r tu allan i'r Brifysgol Ffederal sy'n ofynnol ymhob sefydliad.

61 Dywedodd yr SED bod adolygiad cyfnodol a monitro blynyddol y rhaglenni'n ymwneud yn bennaf â'r sefydliadau ac nid y Brifysgol. Nid yw'r Fframwaith Academaidd yn gwneud unrhyw ofynion penodol ar y gweithdrefnau yma heblaw bod rhaid iddynt fodoli, ac nid yw'n gwneud unrhyw ofynion penodol ar gyfer cyfranogi'n allanol yn y prosesau. Mae'r Bwrdd Academaidd wedi dechrau ystyried sut y gallai'r Brifysgol gymryd rhan mewn adolygiadau cyfnodol ac, yn ddiweddar, mae wedi cynnal cynllun peilot mewn un sefydliad lle mae Cynrychiolydd Pwnc o'r Brifysgol (USR) yn rhoi mewnwelediad traws-sefydliadol yn adolygiadau cyfnodol y sefydliad. Anogwyd y tîm adolygu i weld tystiolaeth oedd yn dangos bod mod i'r Brifysgol ddatblygu strategaethau i'w helpu i fonitro ansawdd a safonau ei dyfarniadau. Ond, ni welodd y tîm unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y fenter hon yn rhan o strategaeth gyffredinol i ddatblygu darlun canolog cyffredinol ac ni dderbyniodd unrhyw esiamplau o'r ffordd, nag yn benodol pryd, y byddai'r cynllun peilot yma wedi'i werthuso.

62 Dywedodd y Brifysgol ei bod 'wedi cyfateb ei gweithdrefnau ag adrannau perthnasol y Còd [yr Asiantaeth] a'i bod yn hyderus o ymlyniad lle bo'n

berthnasol'. Mae'n rhaid i'r CAS arolygu gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliadau. Mae'r Fframwaith Academaidd yn mynnu bod sefydliadau'n darparu i'r Brifysgol gopi o'u gweithdrefnau sicrhau ansawdd academaidd a rhestr o gynlluniau astudio sy'n arwain at gymwysterau'r Brifysgol. Clywodd y tîm adolygu bod y Brifysgol yn dibynnu am sicrhad o ansawdd ar arolygiad o'r llawlyfrau ansawdd yma a wneir gan y Gofrestrfa ac ar dderbyn yr adroddiadau dilysiad. Ond, nid yw'r Fframwaith Academaidd yn rhagnodi beth ddylai fod yn y llawlyfrau. Er bod yr arolygiad gan y Gofrestrfa o lawlyfrau ac adroddiadau dilysiad yn darparu rhywfaint o sicrhad, nid oedd y tîm yn teimlo bod y gweithdrefnau'n darparu mecanweithiau ar gyfer cael gwybodaeth gadarn o'r gweithdrefnau sy'n bodoli mewn sefydliadau, nag ar gyfer agwedd y Brifysgol ei hun tuag at ddatblygu gweithdrefnau ansawdd.

Cyfranogiad allanol mewn prosesau adolygu, monitro a chymeradwyo mewnol

63 Dywedodd yr SED fod angen cynghorwyr allanol i gymeradwyo rhaglenni ymhob sefydliad. Ond, nid yw Llawlyfr y Gofrestrfa na'r Fframwaith yn nodi beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni. Mae'r cyfrifoldebau yma wedi'u trosglwyddo'n gyfan gwbl i'r sefydliadau unigol. O ganlyniad, nid oes gofyniad wedi'i nodi am gyfranogiad allanol mewn adolygiad cyfnodol, er bod y CAQS wedi cymharu'r gweithdrefnau sydd ar waith ymhob sefydliad ar gyfer ystyried cynlluniau astudio newydd. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad y dylai'r Brifysgol, am fod y mesurau yma o waith allanol wedi'u hystyried yn hanfodol i sicrhau ansawdd, geisio arolygiad o'r gwaith monitro ac adolygu yn y sefydliadau er mwyn sicrhau bod yr agwedd allweddol yma o sicrhad ansawdd wedi'i gweithredu drwy'r Brifysgol i gyd. Yna, byddai hyn yn caniatáu iddi deimlo'n hyderus bod yr ymarfer eang yn y maes yma yn cyfateb â rheolau'r Asiantaeth.

Adolygu ac achredu rhaglenni gan gyrff allanol

64 Mae'r Fframwaith Academaidd yn gofyn bod sefydliadau'n darparu adroddiadau'r archwiliad ansawdd ac asesiad gan gyrff cenedlaethol i'r Uwch Is-Ganghellor, ynghyd ag ymateb gan y sefydliad. Ond, hyd yn ddiweddar, nid oedd unrhyw ofyniad i'r Bwrdd Academaidd na neb arall ystyried y rhain er mwyn darparu arweiniad canolog eglur mewn sicrhau ansawdd. Er enghraifft, gwelodd y tîm adolygu fod y Bwrdd Academaidd wedi nodi dau adroddiad am weithrediad yr Asiantaeth ond nid oedd yn gwneud unrhyw sylwadau am gasgliad yr Asiantaeth. Byddai

nifer o adroddiadau am weithrediad aelod-sefydliadau wedi bod ar gael ar yr amser yma, ond ni welodd y tîm unrhyw dystiolaeth o gais i dynnu at ei gilydd yr holl ganlyniadau o adroddiadau gweithrediad yr Asiantaeth er mwyn canfod themâu cyffredinol. Ni allai'r tîm ganfod unrhyw dystiolaeth o ddadansoddiad systematig gan y Brifysgol o adolygiadau cenedlaethol o'i sefydliadau.

65 O gofio bod y Fframwaith Academaidd yn dweud 'Nad yw'n fwriad ganddynt fod Prifysgol Cymru, wrth weithredu ei rôl gyfreithlon fel gwarantwr safonau, yn dyblygu gweithgareddau'r Asiantaeth, y Cyngor Cyllido nag unrhyw gorff ansawdd cenedlaethol arall', mae'n ymddangos yn sylfaenol i'r tîm adolygu bod y Brifysgol yn rhoi ystyriaeth gynhwysfawr i'r adroddiadau mae'r cyrff yma'n eu cynhyrchu ar gyfer eu sefydliadau er mwyn cefnogi sicrhad ansawdd graddau Prifysgol Cymru. Esboniodd yr SED, a dywedwyd wrth y tîm, fod y Brifysgol yn bwriadu datblygu ei chyfranogiad yn adolygiad yr Asiantaeth o sefydliadau drwy ofyn iddynt gyflwyno SED drafft i'r Bwrdd Academaidd. Yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiadau dilynol gan yr Asiantaeth, mae'r Bwrdd yn bwriadu canolbwyntio ei sylw ar werthuso'r adroddiadau er mwyn sicrhau'r budd mwyaf ar gyfer ei sefydliadau i gyd o gasgliadau pob adolygiad. Er bod y tîm adolygu'n teimlo bod y chyfranogiad cynyddol yma mewn dylanwadu ar gyflwyniadau i gyrrff allanol, a monitro'r ymatebion, yn ddatblygiad positif, maent hefyd yn teimlo ei bod hi'n hanfodol i'r Brifysgol wneud gwerthusiad cynhwysfawr a gweithredol o'r holl wersi sydd i'w dysgu o adolygiadau allanol.

Gweithdrefnau ac ymarferion asesu

66 Mae'r RSCC yn goruchwyllo gweithdrefnau asesiadau ac arholiadau'r Brifysgol. Mae Cofrestrfa'r Brifysgol yn darparu'r gefnogaeth weinyddol yn y Brifysgol Ffederal. Mae'r RSCC yn gosod ac yn cadw'r fframweithiau rheoliadol ar gyfer yr holl gynllunio astudio ac yn nodi beth yw'r trothwyon lleiaf ar gyfer dyfarniadau. Mae hefyd yn ystyried achosion arbennig fel y maent yn codi mewn asesiadau a matricwleiddiad APEL i gynlluniau ôl-raddedig. Mae grŵp Uwch-arolygwyr Arholiadau'r Brifysgol yn cynhyrchu adolygiad blynyddol o'r gylchred arholiadau ac mae'r adroddiad yn mynd i'r RSCC. Penodir un uwch-arolygydd arholiadau gan bob sefydliad ac maen nhw'n gyfrifol am arolygu'n lleol y ffordd y gweithredir materion yn ymwneud ag arholiadau. Hefyd, mae gan yr RSCC a'r grŵp Uwch-arolygwyr Arholiadau gyfrifoldeb am adolygu archebion sefydlog y Brifysgol, monitro cydymffurfiad â gweithdrefnau'r Brifysgol a

rheoliadau mewn sefydliadau, ac am ystyried a gweithredu'r adrannau perthnasol o'r *Côd ymarfer*.

67 Mae Cofrestrfa'r Brifysgol yn gyfrifol am ddsbarthiad blynyddol y dogfennau arweiniad a rheoliadau i holl sefydliadau'r Brifysgol. Mae gan y Brifysgol ddau set o reoliadau, sy'n galluogi (yn berthnasol i aelod-sefydliadau), ac sy'n fwy rhagnodol (yn berthnasol i sefydliadau cysylltiol a darpariaeth wedi'i dilysu). Mae'r ddau set o reoliadau'n cynnwys gofynion asesu ac arholiadau. Hefyd, cyhoeddir canllawiau'r Brifysgol yn uniongyrchol i sefydliadau'n rheolaidd a chaiff adolygiadau o reoliadau, canllawiaid a dogfennaeth gefnogol a geir o'r RSCC a/neu Uwch-arolygwyr Arholiadau, eu dosbarthu ar yr e-bost neu gopi caled. Mae'r canllawiau gwella a gyhoeddir drwy'r weithdrefn yma wedi cynnwys y canllawiau ar gyfer goruchwyllo traethodau hirion ar gyfer graddau meistri, ar gyfer ymdrin ag arholiadau *viva voce* ac achosion amgylchiadau arbennig, ar gyfer arholiadau graddau ymchwil ac arholwyr ymchwil, ar gyfer sut i wneud marcio dwbl ac ar gyfer sicrhau cydymffurfiad â deddfwriaeth anabled. Awgrymwyd i'r tîm adolygu fod canllawiau a rheoliadau'n pennu gofynion gweithdrefnol ond nad ydynt wedi'u bwriadu i gyfyngu ar y fethodoleg y maent yn ei defnyddio i'w gweithredu ac y gall y sefydliadau eu gwella. Mae angen i arholwr allanol gadarnhau ac ardystio holl ganlyniadau'r asesiadau mewn bwrdd arholiad. Hefyd, mae'r Brifysgol wedi sefydlu cronfa ddata sydd ar gael ar y we o arholwyr dwyieithog er mwyn cydymffurfio â'r *Canllawiau ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a'r ymarfer effeithiol mewn arholi ac asesu mewn iaith heblaw iaith y dysgu*, a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth.

68 Ond, mae cytundeb y Fframwaith Academaidd a'r pryder dilynol am 'gyfatebolrwydd' wrth ddirprwyo cyfrifoldebau rhwng y Brifysgol a'i haelodau yn codi materion rheoli strategol a pholisi ar gyfer y Brifysgol Ffederal wrth bennu cyfrifoldebau am safonau academaidd. Mae'r *Côd Ymarfer, Adran 6: Asesu Myfyrwyr*, wedi'i ystyried gan yr RSCC a'r CAS yn dilyn trafodaeth gan y Grŵp Uwch-arolygwyr Arholiadau. Mae'r Brifysgol wedi penderfynu bod yr adran hon o'r *Côd* 'yn ymwneud yn bennaf â swyddogaethau a weithredir yn sefydliadau Prifysgol Cymru yn hytrach na'r Brifysgol Ffederal'. I'w nodi'n arbennig mae'r rheol sy'n dweud bod rhaid gweithredu a chyhoeddi yn gyson feini prawf eglur ar gyfer graddio a marcio asesiadau. Wrth archwilio'r gwaith a wneir gan y CAS a'r RSCC ar faterion sy'n gysylltiedig ag ymarferion meincnodi, dienw a marcio dwbl, cadw sgrïptiau, cywerthedd, ac mewn ymarfer pilot

'safoni traws sefydliadol', nododd y tîm adolygu bod cyfresi lawer o gategoreiddio a meini prawf marcio ar waith mewn sefydliadau unigol o'r Brifysgol. Mewn trafodaeth, hysbyswyd y tîm y byddai datblygiad strategaeth cywerthedd yn 'dasg hir a chaled'. Ym marn y tîm roedd angen cefnogaeth i ddatblygu menter rheoli a pholisi sylweddol er mwyn sicrhau'r Brifysgol yn y dyfodol bod y sefydliadau i gyd yn defnyddio meini prawf safonau cyson a chymaradwy.

69 Er bod cyrff yn dechrau ystyried ymarferion asesu tanategol a chymharol, e.e., ystyriaeth y CAS o fodolau cywerthedd a gweithdrefnau asesu sy'n cyfeirio at feini prawf ledled y Brifysgol, roedd y tîm adolygu'n nodi bod y pwyslais yn parhau gan fwyaf ar ofynion arholiadau ffurfiol a gweithdrefnol rheoliadol manwl. Wrth wneud ei dyletswyddau sicrhau ansawdd a safonau academaidd, nid yw'r Brifysgol yn ymestyn ei swyddogaeth eto i ystyried ymhygiadau methodolegau asesu amrywiol, yr egwyddorion sy'n tanategu asesiad a'u perthynas â dysgu ac addysgu drwy'r Brifysgol ac effaith ddilynol y rhain ar brofiad myfyrwyr Prifysgol Cymru. Daeth y tîm i'r casgliad y dylai'r Brifysgol fabwysiadu agwedd fwy strategol a chyfranogol tuag at gydbwysedd ei hystyriaeth o'r materion yma fel y maent yn berthnasol i sicrhau ansawdd a safonau academaidd.

Arholwyr allanol a'u hadroddiadau

70 Dywedodd yr SED fod adroddiadau arholwyr allanol yn elfen allweddol a hanfodol mewn monitro a gwarantu safonau ac mewn pennu materion gwella, a bod y rhain yn hanfodol er mwyn sicrhau bod dyfarniadau'r Brifysgol yn gymaradwy â safonau mewn addysg uwch ym Mhrydain. Mae'r Brifysgol yn darparu dau gôd ymarfer i'w harholwyr allanol ar gyfer cynlluniau astudiaeth ymchwil a chynlluniau astudiaeth wedi'u ddysgu sy'n cael eu cyfateb yng ngweithdrefnau'r Brifysgol gyda gofynion y *Côd ymarfer*. Mae'n rhaid i sefydliadau ddarparu rhaglenni cyflwyno, sy'n ymwneud â staff Cofrestrfa'r Brifysgol, ar gyfer eu harholwyr allanol, a darperir pecyn cyflwyno llawn o ddogfennaeth gefnogi sy'n cynnwys rheoliadau'r Brifysgol, ei dogfennaeth arweiniad a chopi o ffurflen adroddiad arholwyr allanol. Nod codau ymarfer y Brifysgol yw sicrhau bod swyddogaeth yr arholwr allanol yn ddiudedd drwy atal sefydliadau'r Brifysgol rhag dewis arholwyr allanol fel arfer.

71 Yn ei chytundeb Fframwaith Academaidd mae'r Brifysgol wedi gwahaniaethu dwy agwedd tuag at drin y cyfrifoldebau gweinyddol ar gyfer arholwyr allanol, sef derbyn a phrosesu eu hadroddiadau, a rheoli'r swyddogaeth yn fanwl. Ar gyfer arholwyr

allanol sydd wedi'u penodi i aelod-sefydliadau, mae'r Brifysgol wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am enwebu a phenodi arholwyr allanol a'r holl weinyddiad cysylltiedig i'r sefydliadau i raddau mawr. Mae'r Brifysgol yn cadw'r cyfrifoldeb am arolygu'r enwebiadau. Mae angen pasio rhestrau o benodiadau i'r Uwch Is-Ganghellor bob blwyddyn ac mae'r Bwrdd Academaidd yn cadw'r cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ymholi terfynol. Ar gyfer Sefydliadau Cysylltiol a sefydliadau wedi'u dilysu, mae'r Brifysgol yn rheoli'r gweithdrefnau penodiadau drwy gymeradwyaeth ofynnol gan ei gadeiryddion pwnc. Caiff yr enwebiadau eu hadolygu hefyd gan Bwyllgor Gweithredol y Bwrdd Dilysu cyn derbyn cadarnhad terfynol gan y Bwrdd Academaidd.

72 Mae gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer delio ag adroddiadau arholwyr allanol mewn aelod-sefydliadau yn gofyn i arholwyr allanol ddarparu, drwy *pro forma*, sylw uniongyrchol i'r aelod-sefydliad am faterion penodol sy'n berthnasol i'r ffaith fod y cynllun yn cael ei archwilio, a sylwadau ychwanegol am asesiadau, sut mae safonau'n cymharu, meincnodi, manylebion rhaglenni, cydymffurfiad â fframweithiau cymwysterau cenedlaethol a chodau ymarfer, ac agweddau eraill o faterion arholi sy'n berthnasol i'r cynllun astudio sy'n cael ei archwilio. Mae'r Fframwaith Academaidd yn gofyn i aelod-sefydliadau ystyried materion sy'n cael eu cyfathrebu iddynt gan arholwyr allanol a darparu i'r Brifysgol 'unrhyw faterion a ystyrir yn rhai fydd o ddiddordeb neu sy'n berthnasol i'r Brifysgol'

73 Yn y weithdrefn adrodd *pro forma* gwahoddir yr arholwyr allanol hefyd i roi eu sylwadau'n uniongyrchol i'r sefydliad ac i Gofrestrfa'r Brifysgol am faterion sydd o ddiddordeb ffederal. Mae'r CAS yn monitro sylwadau a chyflëir yr ymatebion i'r arholwr allanol. Pan fydd angen gweithredu mae'r Brifysgol yn rhoi gwybod i'r sefydliad ac yn gofyn iddynt roi syniad am y gweithredu sydd wedi'i wneud. Cyfeirir unrhyw faterion generig a godir yn y broses yma drwy ystyriaethau blynyddol y CAS a gallent gael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithredu neu eu hymgorffori mewn canlyniadau penodol i'r CAS neu sefydliadau ymdrin â hwy. Mae esiamplau o ystyriaeth y CAS o faterion sydd wedi'u pennu yn y broses yma'n cynnwys ffurfio gweithdrefnau i ddelio â llên-ladrad, gwella gweithdrefnau ar gyfer dilyniant ôl-raddedig, a chytundeb am egwyddorion a gweithdrefnau ar gyfer asesiad modiwlaid. Mae'r CAS hefyd yn derbyn ymatebion cryno gan aelod-sefydliadau am faterion o ddiddordeb ffederal a godir gan yr arholwyr allanol. Mae'r broses ar gyfer ystyried adroddiadau arholwyr allanol am ddarpariaeth

wedi'i dilysu yn wahanol. Mae gan y Bwrdd Dilysu'r cyfrifoldeb allweddol am dderbyn yr adroddiadau i gyd a darparu bras olwg ohonynt i'r Bwrdd Academaidd drwy gyfrwng y CAS sy'n eu hystyried nhw. (edrychwch isod, paragraff 113)

74 Nododd y tîm adolygu fod y gweithdrefnau ar gyfer trin adroddiadau arholwyr allanol gan aelod-sefydliadau ac o ddarpariaeth gydweithredol yn darparu cyfleoedd i roi sylwadau cadarnhaol a negyddol i'w hystyried gan y sefydliadau a'r Brifysgol. Ond, dim ond 10 y cant o'r arholwyr allanol mewn aelod-sefydliadau gymerodd y cyfle i roi sylwadau ar faterion ffederal. Mae'r CAS yn rhoi yr un amlygrwydd i'r ystyriaeth o ymarferion da ag ydyw i faterion sydd i dderbyn sylw yn y broses flynyddol hon. O ganlyniad i amseriad cymhleth cyfarfodydd pwyllgor roedd rhai sefydliadau'n ei chael hi'n anodd cadw at yr amserlen gyflwyno, ar gyfer ystyriaeth y CAS, sylwadau ar adroddiadau archwilwyr allanol. Hefyd, gwelodd y tîm dystiolaeth o rywfaint o ddryswch ymysg arholwyr allanol ynghylch yr wybodaeth ddylai fynd i'r Brifysgol, a'r wybodaeth ddylai fynd i'r sefydliad.

75 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad fod y systemau dirprwyedig a gwahaniaethol ar gyfer rheoli adroddiadau arholwyr allanol ychydig yn gymhleth, er eu bod yn cymhwyso swyddogaethau'r Brifysgol, y sefydliadau cysylltiol a darpariaeth wedi'i dilysu ac aelod. Nid oedd y prosesau a gofynion rheoli cyfredol yn sicrhau bod sylwadau arholwyr allanol am safonau academaidd a materion sicrhau ansawdd mewn aelod-sefydliadau a sefydliadau cysylltiol neu faterion sy'n ymwneud â materion thematig ffederal ar gael i raddau digonol i bwyllgorau sefydlog y Brifysgol i bwrpasau sicrhau hollol gymaradwy ac adolygiad strategol rheolaidd.

76 Er bod y weithdrefn bresennol yn cynnig cyfle i arholwyr allanol roi eu sylwadau yn wirfoddol ar faterion ffederal, nid yw'n darparu bras olwg digonol critigol neu wybodaeth uniongyrchol i'r Brifysgol am safonau academaidd fel y maent yn berthnasol i swyddogaeth strategol y Brifysgol. Roedd y tîm adolygu o'r farn bod y cynnig ar gyfer samplio adroddiadau arholwyr allanol llawn mewn sefydliadau y mae'r Brifysgol wedi 'derbyn y materion o ddiddordeb ffederal yn unig ar hyn o bryd', yn ffordd bositif o ystyried adroddiadau arholwyr allanol drwy eithriad. Hefyd, cydnabuwyd cychwyniad y gweithdai datblygiad ar swyddogaeth arholi allanol a'r gweithdy blynyddol i safonwyr fel ymarfer da sy'n cyfrannu at swyddogaeth safonau a sicrhau ansawdd y Brifysgol. Ond, doedd hi ddim yn eglur i'r tîm sut y gellir alinio newidiadau o'r fath gyda'r Fframwaith Academaidd sy'n rhoi cyfrifoldeb

llawn i aelod-sefydliadau am arholwyr allanol. Roedd y tîm yn teimlo bod angen polisi mwy integredig a chydlynol gynhwysol er mwyn rhoi digon o arolygiad i'r Brifysgol o faterion yn ymwneud â safonau a godir gan arholwyr allanol; er mwyn bod mewn sefyllfa i sicrhau cysondeb rheolaeth y broses; ac er mwyn gallu adolygu'n fwy trwyadl gadarnhad yr arholwyr allanol o gymaroldeb safonau ym mhob agwedd o ddarpariaeth y Brifysgol.

Mynediad y myfyrwyr a'r defnydd a wneir o ystadegau dilyniant a chwblhau

77 Mae'n ofynnol gan y Brifysgol bod ei sefydliadau'n darparu gwybodaeth rifyddol sylfaenol am fyfyrwyr a gychwynnodd a'r cymwysterau a enillwyd. Cyflenwyd y data crai yma i'r tîm adolygu mewn tablau heb unrhyw ddadansoddiad. Yn ôl yr SED, mae gan y sefydliadau yn hytrach na'r Brifysgol Ffederal ddata manwl am y myfyrwyr. Clywodd y tîm fod tabl yn cymharu dosbarthiadau gradd israddedig gan yn gwahanol sefydliadau yn cael ei gynhyrchu i'w ystyried a bod y ddau grŵp, Grŵp Rhyngwyneb y Cofrestrfeydd Academaidd a'r Gweithgor Cywerthedd, yn edrych ar yr hyn y dylai'r Brifysgol ei wneud gyda'r data. Ar ben hynny, roedd system data myfyrwyr newydd yn mynd i gael ei sefydlu cyn hir: roedd aelod newydd o staff y Gofrestrfa wedi'i benodi ac roedd pobl wrthi'n ceisio penderfynu pa wybodaeth y dylai'r Brifysgol ei chadw.

78 Roedd y tîm adolygu'n teimlo fod y prinder blaenorol o ystyriaeth weithredol o ddata am fynediad a dilyniant myfyrwyr yn adlewyrchu barn y Brifysgol mai dim ond y sefydliadau oedd yn ymwneud â rheoli ansawdd, nid y Brifysgol. Roedd y tîm yn teimlo y dylai'r Brifysgol symud yn gyflym tuag at y bwriad a nododd i symud i sefyllfa o wybodaeth a rheoli gweithredol o ddata myfyrwyr er mwyn darparu bras olwg o gyrhaeddiad y myfyrwyr drwy'r Brifysgol i gyd ac er mwyn ei galluogi i gyflawni ei chylch gwaith yn llawn mewn perthynas ag arolygu safonau ledled y Brifysgol.

Pwyntiau cyfeirio allanol

79 Mae'n ofynnol gan Fframwaith Academaidd y Brifysgol fod pob sefydliad yn sefydlu eu gweithdrefnau eu hunain i sicrhau ansawdd ac i fod yn unigol atebol i drefniadau cenedlaethol ar gyfer archwilio ansawdd. Ond, mae'n ofynnol gan y Bwrdd Academaidd fod y CAS yn hybu ac yn cychwyn trafodaethau am wella safonau drwy'r Brifysgol Ffederal i gyd; drafftio Nodiadau Arweiniad a Chodau Ymarfer yn ôl cyfarwyddyd y Bwrdd; a monitro mentrau'r Asiantaeth mewn cydweithrediad â'r Bwrdd. I gefnogi'r nodau yma fe nododd yr SED

sut mae'r Brifysgol wedi ymateb i bwyntiau cyfeirio allanol mewn ansawdd dysgu. Yn gyffredinol, mae'r cyfrifoldeb gan y sefydliadau, ond dyma'r gofynion penodol: (i) bod manylebion ar gyfer rhaglenni addysgu newydd yn cynnwys cyfeiriad at feincnodau perthnasol, (ii) bod y meini prawf ar gyfer categorïau o ddyfarniadau yn cyfateb â disgrifiadau'r FHEQ ac (iii) agosáu at weithredu'r *Fframwaith Credyd a Chymwysterau i Gymru*. Ar ben hynny, nododd yr SED sut y mae wedi ymateb i'r *Côd ymarfer* lle mae hwn yn berthnasol i swyddogaethau penodol y Brifysgol Ffederal megis arholi allanol, apeliadau academaidd ac ymarferion arholi.

80 Clywodd y tîm adolygu yn yr adolygiad bod newid mawr wedi digwydd yn swyddogaeth y Bwrdd Academaidd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda'r rhan fwyaf o'i fusnes yn ymwneud erbyn hyn ag ansawdd a safonau o fewn yr agenda cenedlaethol Mae'r CAS a staff y Gofrestrfa wedi ystyried y *Côd ymarfer* a chanlyniad hyn yw'r cynigion i'r Bwrdd Academaidd. Clywodd y tîm fod y staff uwch yn cydnabod erbyn hyn bod ansawdd a safonau academaidd, mewn ymateb i'r côd, yn ddibynnol ar ei gilydd er gwaethaf safbwynt ffurfiol y Brifysgol ei bod yn gyfrifol am safonau yn unig.

81 Gwelodd y tîm adolygu bod newidiadau mawr wedi digwydd yn agwedd y Bwrdd Academaidd a'r CAS tuag at y *Côd ymarfer*. Ond, oherwydd strwythur ffurfiol y Brifysgol a'r Fframwaith Academaidd yr ymateb oedd canolbwyntio ar y materion yr oedd ganddi gyfrifoldeb ffurfiol amdanynt yn barod yn unig, e.e. categorïau dyfarniadau. Efallai am fod gan y Brifysgol fecanweithiau ffurfiol cyfyngedig ar gyfer derbyn gwybodaeth am ei rhaglenni addysgu, roedd y sylw i faterion ansawdd yn gyfyngedig. Ym marn y tîm, os yw'r Brifysgol eisiau cadw perchnogaeth ar ei graddau a dyfarniadau eraill, yna mae'n hanfodol ei bod yn datblygu strategaeth ar gyfer rheoli ansawdd a safonau sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cenedlaethol.

Cynrychiolaeth y myfyrwyr

82 Disgrifiodd yr SED sut mae cyfansoddiad y Bwrdd Academaidd yn cynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr a bod y ddarpariaeth yn ymestyn i'w hisbwyllgorau. Mae gan yr RSCC ddarpariaeth ar gyfer dau aelod sy'n fyfyrwyr, tra bo gan y CAS a'r Bwrdd Dilysu ddarpariaeth ar gyfer un aelod sy'n fyfyrwr. Nododd y tîm adolygu bod gan bob un o'r pwyllgorau yma un aelod sy'n fyfyrwr yn mynychu ac mai yr un myfyrwr ydoedd bob tro. Mae'r myfyrwr yma hefyd yn eistedd ar y Cyngor ond nid Apeliadau. Dywedwyd wrth y tîm fod sicrhau cynrychiolaeth y myfyrwyr wedi'i gymhlethu gan y

ffaith fod Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) Cymru yn ymwneud â sefydliadau yn ychwanegol at rai'r Brifysgol a bod cynrychiolaeth myfyrwr wedi'i sicrhau drwy ymrwymiad aelod unigol o Sefydliad Myfyrwyr Prifysgol Cymru yn 2003-04

83 Yn y SWS, eglurodd y myfyrwyr bod sefydlu Sefydliad y Myfyrwyr yn egwyddor bwysig ond nad oedd yn effeithiol iawn. Ar ben hynny, dywedodd y SWS nad oedd unrhyw un o'r myfyrwyr mewn grŵp ffocws o fyfyrwyr a swyddogion NUS o aelod-sefydliadau eraill, yn ymwybodol o swyddogaeth y Brifysgol ac nid oeddent yn teimlo'n rhan o Brifysgol Ffederal. Nododd y SWS bod y Brifysgol yn disgwyl gweld newidiadau sylweddol ac felly roedd yn teimlo ei bod hi'n bwysig i'r Brifysgol annog myfyrwyr i gyfranogi yn y broses yma a sicrhau bod y canlyniadau wedi'u cyfathrebu'n dda i fyfyrwyr. O'r dystiolaeth oedd ar gael i'r tîm adolygu, roedd hi'n ymddangos bod y myfyrwyr, yn gyffredinol, yn teimlo bod NUS Cymru yn cynrychioli eu barn a bod gwybodaeth y myfyrwyr am Sefydliad y Myfyrwyr yn fychan. Ond, mae'r Brifysgol yn disgwyl i Sefydliad y Myfyrwyr ddarparu'r cynrychioliad ar ei bwyllgorau. Wrth gwrs, mae hyn yn sialens i'r Brifysgol i sicrhau cynrychiolaeth ddigonol ar ei phwyllgorau ac, wrth iddi ymateb i'r amgylchedd sy'n newid, bydd y Brifysgol eisiau ystyried sut i sicrhau cynrychiolaeth fwy effeithiol gan y myfyrwyr.

Adborth

84 Nid yw'r Brifysgol yn coladu gwybodaeth o arolygon cyrchnod cyntaf ei graddedigion. Roedd yr SED yn dawel ynghylch casglu adborth gan fyfyrwyr, graddedigion a chyflogwyr heblaw mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg lle clywodd y tîm adolygu bod cenhadaeth yr uned i geisio darpariaeth AU yn cyfateb ag anghenion darparfyfyrwyr, cymunedau a chyflogwyr yng Nghymru. Mae'r Brifysgol yn cynnal cyfarfod blynyddol o lywyddion yr NUS o'i sefydliadau ynghyd ag aelodau uwch o staff o'r Brifysgol, ond doedd hi ddim yn ymddangos bod unrhyw fecanwaith mwy ffurfiol ar gyfer casglu adborth neu gyfraniad gan y myfyrwyr ar y lefel ffederal.

Cwynion ac apeliadau myfyrwyr

85 Mae gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer apeliadau a chwynion wedi'u gwahaniaethu'n eglur. Roedd yr SED yn disgrifio sut mae sefydliadau'n ymdrin â chwynion am ddarpariaeth gwasanaeth academaidd, gyda'r posibilrwydd o gyfeirio cwyn at yr Uwch Is-Ganghellor a'r Bwrdd Academaidd yn y Brifysgol, proses sydd wedi'i gweithredu unwaith yn unig mewn blynyddoedd diweddar. Y sefydliad

hefyd sy'n ymdrin ag apêl i adolygu penderfyniad academiaidd fel arfer ond mae'r Brifysgol yn cadw'r cyfrifoldeb ffurfiol fel y corff mewn enw ar gyfer yr holl ymgeiswyr sydd wedi cwblhau eu cyfnod astudio ar gyfer pob cynllun a rhaglen astudio. Mae oddeutu 150 o achosion bob blwyddyn yn dod i'r Brifysgol. Mae'r rhain wedi'u cyfyngu i'r rheini sydd naill ai wedi cwblhau eu hastudiaethau neu i apeliadau gan fyfyrwyr sydd wedi'u cyhuddo o ymarferion annheg.

86 Disgrifiodd yr SED sut mae ei gyfranogiad yng 'ngwrandawriad achosion apeliadau a gosod canllawiau ar gyfer datrys cyhuddiadau o ymarferion annheg' yn un o'r elfennau y mae'r Brifysgol yn dibynnu arnynt i sicrhau safonau ei dyfarniadau. Esboniodd yr SED fod y Bwrdd Academiaidd wedi dechrau derbyn adroddiadau'n uniongyrchol gan y Bwrdd Apêl gyda'r nod o wella gweithdrefnau. Mae'r Bwrdd Academiaidd wedi gwneud archwiliad o gwynion ac wedi sefydlu Panel Ymholiad hefyd i astudio cyhuddiadau o lèn-ladrad. Dywedodd myfyrwyr a staff wrth y tîm adolygu fod proses apeliadau'r Brifysgol yn ychwanegu ystyriaeth allanol a niwtral y maent yn ei chrosawu oedd yn wahanol i sefydliad cartref y myfyrwyr ac oedd felly'n darparu sicrwydd ychwanegol i'r myfyrwyr. Ond, dywedodd myfyrwyr a chynghorwyr y myfyrwyr wrth y tîm fod y broses yn gymhleth i'w deall a'i defnyddio, a bod y defnydd gwybodaeth a gyhoeddwyd i esbonio'r broses yn anodd ei ddeall hefyd.

87 Roedd y tîm adolygu'n bryderus fod y portread o gyfrifoldeb y Brifysgol am y prosesau apelio rhwng sefydliadau, oedd â chyfrifoldeb am glywed apeliadau yn erbyn penderfyniadau byrddau dilyniant, a'r Brifysgol oedd yn clywed apeliadau sy'n codi o fyrddau dyfarnu a gan achosion o ymarfer annheg, yn gostwng y gwerth a roddwyd iddo fel dull o dawelu meddwl y Brifysgol am safonau ei graddau. Ar ben hynny, clywodd y tîm nad oedd y defnydd gwybodaeth a anfonir at fyfyrwyr yn ddefnyddiol i gefnogi'r nod yma.

Gwerthuso a gwobrwyo staff a datblygiad staff

88 Cyflogir staff addysgu gan y sefydliadau ac nid gan y Brifysgol. Ond, mae'r Brifysgol yn gosod y gweithdrefnau ar gyfer penodi staff academiaidd uwch (darllenwyr ac athrawon) ac yn gofyn fod cynrychiolydd o'r Brifysgol ar y panel penodi. Mae angen cymeradwyaeth ffurfiol y Bwrdd Academiaidd ar gyfer penodi staff y tu allan i'r sefydliadau cyfansoddol lle bo hynny wedi'i ganiatáu. Ni roddodd yr SED sylwadau am y broses yma na'i werth mewn sicrhau safonau neu ansawdd profiad dysgu'r myfyriwr. Mae'r Brifysgol yn cadw rôl ffurfiol ond nid

yw'n ymddangos fel pe bai'n gwerthfawrogi'r cyfle i annog agweddau ehangach o welliant yn ansawdd y staff academiaidd drwy hybu gweithdrefnau. Ni roddodd yr SED unrhyw farn ffederal am y ffordd y sicrheir ansawdd y staff addysgu. Yn arbennig, doedd hi ddim yn ymddangos bod y materion generig sy'n codi o'r Sefydliadau Dysgu ac Addysgu mewn Addysg Uwch wedi'u datblygu.

89 I'r gwrthwyneb, nododd y tîm adolygu agwedd bositif y Pwyllgor Sefydlog ar Ddysgu Gydol Oes o ran chwilio am wella ansawdd a chynyddu partneriaeth effeithiol gyda diwydiant. Yn yr un modd, mae Bwrdd Addysgu Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol yn cynnig arweiniad proffesiynol yn ei faes ac mae'r Brifysgol yn talu am swyddog datblygiad addysgu i gefnogi'r swyddogaeth yma. Roedd y CAS wedi bod yn rhagweithiol wrth chwilio am gyfnewidiad ymarferion da ar fentrau addysgu a dysgu yn y sefydliadau. Ym mis Mawrth 2002 bu'r Brifysgol yn cefnogi seminar diwrnod ar faterion ansawdd. Yn olaf, darperir meysydd pwysig ar gyfer cefnogi datblygiad staff gan y Brifysgol drwy ei hyrwyddiad a'i chefnogaeth ariannol o nifer o gyrff y Brifysgol i hybu cydweithrediad rhyng-sefydliadol mewn meysydd astudio penodol e.e. Cyngor Daearyddiaeth Prifysgol Cymru a Sefydliad y Clasuron a Hanes yr Henfyd Prifysgol Cymru.

Sicrhad o ansawdd yr addysgu a ddarperir drwy gynlluniau dysgu o bell a dysgu wedi'i ddsbarthu

90 O fewn yr aelod-sefydliad dim ond rhai achosion a geir o gydweithrediad yn ymwneud â darparu rhaglenni drwy ddulliau ddsbarthu a dysgu o bell. Mae'r rhain i gyd wedi'u rheoli gan y Bwrdd Dilysu a'r Uned Ddilysu ac maent wedi'u llywio gan y prosesau a geir yn y Llawlyfr Dilysiad. I gydnabod y sialensiau penodol a gyflwynir gan drefniadau o'r fath mae'r Brifysgol wedi cefnogi ei chyfarwyddiadau cyffredinol gydag adran benodol yn y Llawlyfr Dilysiad am ddilysu'r cynlluniau Pellter. O gymryd yr holl fecanweithiau yma gyda'r weithdrefn ar gyfer gwneud archwiliad cychwynnol o ganolfannau newydd, roedd hi'n ymddangos i'r tîm bod hyn yn darparu arolygiaeth oedd yn gyffredinol gyfatebol â disgwyliadau'r *Canllawiau ar sicrhau ansawdd dysgu o bell* a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth.

Arweiniad academiaidd ac arolygiad y myfyrwyr

91 Gwneir trefniadau ar gyfer cefnogi myfyrwyr yn academiaidd gan y sefydliadau ac nid ydynt wedi'u rheoleiddio gan y Brifysgol Ffederal. Un eithriad yw'r trefniadau ar gyfer goruchwylwyr ymchwil mewn

sefydliadau cysylltiol lle mae angen cymeradwyaeth y Brifysgol. Gwelodd y tîm adolygu bod rhywfaint o adborth i'r Brifysgol drwy'r weithdrefn apelio, lle gellir cwestiynu a yw'r oruchwyliaeth ar gyfer y gwaith ymchwil yn ddigonol, a'r Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig sy'n gosod amrywiaeth eang o reoliadau, e.e. y 'Canllawiau ar Gydberthnasau Personol Agos'. Clywodd y tîm mai un canlyniad i apeliadau oedd bod gofyn erbyn hyn i oruchwylwyr ymchwil gadw tystiolaeth ddogfennol o gyfarfodydd gyda myfyrwyr. Roedd y tîm yn teimlo fod y prosesau yma'n adlewyrchu ar gyfrifoldebau staff academiaidd yn hytrach na darparu sicrhad i'r Brifysgol am gefnogaeth y myfyrwyr.

Cefnogaeth bersonol

92 Darperir cefnogaeth bersonol i'r myfyrwyr gan y sefydliadau. Drwy ei Fframwaith a'i strwythur pwyllgorau, nid yw'r Brifysgol yn cymryd diddordeb uniongyrchol mewn canllawiau a chefnogaeth myfyrwyr.

Trefniadau cydweithredol

93 Caiff yr holl ddarpariaeth gydweithredol ei harolygu gan y Bwrdd Dilysu sy'n derbyn cefnogaeth weinyddol gan yr Uned Ddilysu. Mae'r Brifysgol yn categorioedd ei threfniadau cydweithredol naill ai fel darpariaeth wedi'i dilysu neu ddarpariaeth wedi'i hetholfreinio ac mae'n defnyddio'r diffiniadau eang 'dilysiad' ac 'etholfreinio' a gynhwyswyd yn y *Côd ymarfer, Adran 2: Darpariaeth gydweithredol* gyfredol. Mae gan y Bwrdd Dilysu'r cyfrifoldeb pennaf am gychwyn, sefydlu a chynnal yr holl ddarpariaeth sydd wedi'i dilysu, ac am gymryd swyddogaeth arolygwr mewn perthynas â gweithgareddau etholfreinio gan yr aelod-sefydliadau. Mae gan y Brifysgol drefniadau dilysu gyda rhyw 20 o sefydliadau ym Mhrydain ac oddeutu 55 o gysylltiadau tramor. Mae'r rhaglenni'n amrywio o lefel tystysgrif/diploma drwy amrywiol raddau cyntaf a graddau meistri wedi'u dysgu i raddau ymchwil (MPhil, PhD).

94 Mae gweithgaredd etholfreinio wedi'i chanolbwyntio ym Mhrifysgol Cymru, Casnewydd a NEWI ac mae mewn PGCE/Tystysgrif Addysg gan fwyaf ym Mhrydain ac mewn darparu rhaglenni mewn pynciau yn ymwneud â busnes dramor. Hysbyswyd y tîm adolygu am ddwy raglen oedd wedi'u cymeradwyo i'w darparu drwy bartneriaid ym Mhrydain oedd yn cael eu darparu gan yartneriaid Prydeinig mewn sefydliadau dramor. Gwelodd y tîm fod gweithdrefnau wedi'u hadolygu yn ddiweddar, ac er bod darpariaeth dramor yn parhau, roedd cydberthynas uniongyrchol yn bodoli

erbyn hyn drwy gytundeb ffurfiol rhwng y sefydliad dramor a'r Brifysgol. Bydd angen i'r Brifysgol gadw ei llygaid yn agored i sicrhau ei bod yn ymwybodol o'r holl ganolfannau sy'n cynnig ei rhaglenni.

95 Dywedodd y SED fod gwaith y Bwrdd Dilysu wedi'i gyfateb yn ofalus â'r *Côd ymarfer, Adran 2: Darpariaeth gydweithredol* a bod y Brifysgol yn fodlon bod ei gweithdrefnau'n gymaradwy â'r rheini a nodwyd. Mae'r tîm adolygu'n cytuno i raddau helaeth â'r asesiad, heblaw lle mae materion penodol wedi'u pennu isod.

Cyfrifoldeb am ansawdd a safonau

Cyrsiau wedi'u hetholfreinio

96 Mewn perthynas â chysiau sydd wedi'u hetholfreinio mae'r Brifysgol yn cymryd arolygiad sydd wedi'i seilio ar ei swyddogaeth fel y gwarantwr pennaf o safonau lle bynnag y cynigir dyfarniadau yn ei henw. Mae'r cyfrifoldeb am fonitro cywirdeb academiaidd dyfarniadau wedi'u hetholfreinio wedi'i ddirprwyo i'r etholfreiniwr. Cyhoeddir Llawlyfr Etholfreinio gan y Brifysgol sy'n cynnwys lefel briodol o fanylder ar gyfer etholfreiniwyr a'u partneriaid. Yn unol â'r Llawlyfr Etholfreinio, nododd y tîm adolygu bod cynrychiolwyr y Bwrdd Dilysu yn bresennol ar banelau sy'n ymweld ar gyfer cymeradwyaeth gychwynnol ac adolygiad cyfnodol o'r ddarpariaeth sydd wedi'i hetholfreinio, a bod adroddiad monitro blynyddol ac adroddiadau arholwyr allanol wedi'u hadolygu ym Mhwyllgor Gweithredol y Bwrdd Dilysu. Daeth y tîm i'r casgliad bod gan y Brifysgol arolygiaeth effeithiol a digonol o'r ddarpariaeth sydd wedi'i hetholfreinio.

Cyrsiau wedi'u dilysu

97 Dywedodd yr SED bod gan y Bwrdd Dilysu'r cyfrifoldeb pennaf am ddarpariaeth y Brifysgol sydd wedi'i dilysu. Mae hyn yn gofyn gweithredu system sy'n cwmpasu popeth sy'n delio â holl agweddau cydweithrediad wedi'i ddilysu. Mae'r datganiad o genhadaeth ar gyfer y Bwrdd a'r Uned Ddilysu yn cynnwys datganiadau am ddiogelu statws academiaidd y Brifysgol ac am ganolbwyntio ar fecanweithiau gwerthuso a sicrhau ansawdd. Yn gyferbyniol â'r ddarpariaeth a gynigir mewn aelod-sefydliadau, roedd hi'n amlwg bod y Brifysgol yn ei hystyried ei hun yn gyfrifol am ansawdd a safonau darpariaeth wedi'i dilysu. Cyhoeddir dau lawlyfr ar gyfer rhaglenni wedi'u dilysu, un ar gyfer cynlluniau Astudiaethau Iechyd ac un ar gyfer y ddarpariaeth ddilysu arall.

Swyddogaeth y safonwr

98 Disgrifiodd y SED sut y 'penodir safonwr, ar gyfer pob cynllun astudio wedi'i ddilysu gan Adran neu Ysgol briodol'. Mae'n mynd ymlaen i esbonio

bod y safonwr yn 'gwneud swyddogaeth hanfodol yn nhermau mentrau datblygiad staff ynghyd â chanolbwyntio ar ddatblygiad cyrsiau ac ar sicrhau fod sylw priodol wedi'i roi i weithrediad materion rheoliadol allweddol ymhob canolfan sydd wedi'i dilysu'. Roedd hi'n amlwg i'r tîm adolygu bod y swyddogaeth yn ganolog i allu'r Brifysgol i fonitro cysondeb a chadernid y prosesau sicrhau ansawdd a safonau academaidd y dyfarniadau a ddarperir drwy sefydliadau partner. Mae'r Brifysgol yn cynnal cynhadledd safonwyr blynyddol a chyn hon mae sesiwn hyfforddi ar gyfer safonwyr newydd y mae pob un ohonynt yn derbyn gwahoddiad iddo. Ar gyfer darpariaeth sy'n bodoli'n barod bydd safonwyr newydd yn gorgyffwrdd fel arfer â'r sawl sy'n gadael y swydd fel bod modd pasio materion penodol am raglenni yn eu blaen.

99 Edrychodd y tîm adolygu ar y ddogfennaeth ar gyfer cynhadledd flynyddol nodweddiadol a daeth i'r casgliad ei bod yn broses gefnogol a datblygiadol oedd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i wella ansawdd a bod nifer dda yn mynychu. Gofynnir i safonwyr ddarparu adroddiad blynyddol am y sefydliad partner a chlywodd y tîm fod safonwyr yn ymweld yn rheolaidd â'r sefydliadau partner. Ar ymweliadau â sefydliadau, caiff y safonwyr gwmni aelod o staff o'r Uned Ddilysu lle bo'n bosib. Ym marn y tîm roedd hyn yn ymarfer da oedd â'r potensial i sicrhau bod ymweliadau o'r fath wedi'u gweithredu'n drwyadl a hefyd i ddatblygu cysylltiad da rhwng y sefydliadau a'r Uned Ddilysu. Ond, roedd tystiolaeth hefyd bod rhai safonwyr yn defnyddio'r patrymlun a ddarperir ar gyfer eu hadroddiad blynyddol fel sail ar gyfer rhaglen eu hymweliadau, roedd eraill yn llai ffurfiol. Mewn cyfarfod gyda safonwyr, clywodd y tîm fod rhai ohonynt yn nodi bod rhaid cael cyfarfod ar wahân gyda myfyrwyr ond, mewn un achos o leiaf, roedd hi'n amlwg nad oedd cyfarfod o'r fath wedi bod yn rhan o'r ymweliad. Ym marn y tîm byddai ansawdd a chysondeb cyfraniad y safonwyr i gynnal a chadw ansawdd a safonau wedi'i wella gan gynhyrchiad canllawiau gweithredol mwy manwl yn arbennig mewn perthynas â materion sydd i dderbyn sylw yn ystod yr ymweliadau er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y bobl hynny sy'n gwneud y swyddogaeth, yn arbennig os na fydd aelod o'r Uned Ddilysu ar gael i fod yn gwmni i'r safonwr.

100 Er bod y safonwyr yn derbyn cymorth a chefnogaeth dda gan yr Uned Ddilysu yn weinyddol, clywodd y tîm adolygu nad oedd arolygiaeth weithredol yn ôl bob tebyg o weithgareddau a swyddogaeth safonwyr ym maes ansawdd a safonau ac, ar wahân i sylwadau yn yr adolygiad bob pum mlynedd, (edrychwch isod,

paragraff 110) nad oedd adolygiad rheolaidd o berfformiad y safonwyr. Efallai yr hoffai'r Brifysgol ystyried sut y gellid adolygu, datblygu ac adrodd am swyddogaeth y safonwr er mwyn sicrhau ei fod yn ateb gofynion y Brifysgol.

Yr Adroddiad Adolygu Dilysiad ac Etholfreinio (Adroddiad Wright)

101 Roedd yr SED yn disgrifio'r adolygiad diweddar o weithgareddau dilysu ac etholfreinio'r Brifysgol yr oedd Adroddiad Wright yn ganlyniad iddo. Darparwyd yr Adroddiad i'r tîm adolygu ac roedd yn arbennig o ddefnyddiol mewn rhoi gweithgareddau cydweithredol y Brifysgol yn eu cyd-destun. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ym mis Awst 2003 a gallai'r tîm ddefnyddio argymhellion yr Adroddiad i adnabod y gwaith oedd wedi'i wneud yn barod gan y Brifysgol. Roedd nifer o'r argymhellion yn arbennig o berthnasol i'r tîm ac maent wedi'u nodi isod .

102 *Argymhelliad 1 - Y dylai'r Bwrdd Dilysu gynnwys Is-ganghellor.* Wrth drafod, dywedwyd wrth y tîm adolygu nad oedd hi'n bosib ateb yr argymhelliad yma ar hyn o bryd oherwydd ymddeoliadau a'r ffaith fod rhywun yn mynd i gymryd lle'r Uwch Is-Ganghellor cyn hir, er y byddent yn ail edrych ar y mater yma. Er eu bod yn derbyn y rhwystrau yma ar y Brifysgol, daeth y tîm i'r casgliad y byddai'r Bwrdd Dilysu'n elwa'n sylweddol o dderbyn cyfraniad ar lefel strategol ac y gellid darparu hyn drwy sicrhau presenoldeb aelod o Fwrdd yr Is-Ganghellor.

103 *Argymhelliad 8 - Na ddylai'r Brifysgol ddilysu na chytuno i etholfreinio rhaglenni newydd mwyach lle mae iaith y cyfarwyddyd heb fod yn y Saesneg neu'r Gymraeg, neu os nad oes darpariaeth gydweiddol o fewn y Brifysgol.* Mewn perthynas â'r argymhelliad am iaith, fe glywodd y tîm adolygu mewn trafodaeth fod y Brifysgol yn aros am y Còd ymarfer, *Adran 2: Darpariaeth gydweithredol* oedd wedi'i adolygu cyn gwneud penderfyniadau terfynol. Byddai'r tîm yn annog y Brifysgol i barhau i ystyried yr argymhelliad yma.

104 *Argymhelliad 9 - Pan fo'r Brifysgol yn dilysu darpariaeth gydweiddol a heb fod â gallu yn union yr un fath yn y pwnc, dylai benodi ymgynghorydd cwsr o'r ddisgyblaeth honno i weithredu gyda'r safonwr.* Wrth ystyried y materion 'darpariaeth gydweiddol' a godwyd gan Adroddiad Wright daeth y tîm adolygu i'r casgliad nad oedd gwahaniaeth digon eglur rhwng y diffiniadau 'heb fod yn gydweiddol' ac 'heb fod yn union yr un fath' i fod yn sicr bod pawb yn deall y gwahaniaethau allai olygu y byddai'n bosib dilysu rhaglenni nad oes arbenigedd ar gael yn y pwnc hwnnw o fewn y Brifysgol. Gallai'r tîm ystyried un bartneriaeth lle nad oedd darpariaeth gydweiddol

yn y Brifysgol. Ym marn y tîm, mewn achosion o'r fath, byddai'r gefnogaeth a'r cyfraniad academaidd cadarn fyddai'n cymharu â hwnnw a ddarperir ar gyfer rhaglenni eraill sydd wedi'u dilysu, wedi'u gwasanaethu orau gan benodiad ymgynghorydd cwrs arbenigol parhaol i ddarparu'r cyfraniad academaidd a ddarperir fel arfer gan y safonwr. Ond, mewn trafodaeth, clywodd y tîm fod y Brifysgol, mewn ymateb i argymhellion Adroddiad Wright yn bwriadu penodi ymgynghorydd cwrs blwyddyn cyn i'r rhaglenni gael eu hadolygiad pum mlynedd. Ym marn y tîm, nid oedd hwn yn ymateb addas i'r argymhelliad ac ni fyddai'n darparu'r sicrhad angenrheidiol i'r Brifysgol. Wrth ystyried hyn ymhellach, bydd y Brifysgol hefyd yn gobeithio darparu arweiniad pellach ar y diffiniadau 'heb fod yn gydweddol' ac 'heb fod yn union yr un fath' fel bod y gofynion dilysu yn eglur.

105 *Argymhelliad 14 – Dylai'r safonwyr weithio am bum mlynedd i ddechrau gyda'r posibilrwydd o gael eu hail benodi am gyfnod unigol o ddwy flynedd.* Yn ei SED dywedodd y Brifysgol fod y 'tymor gweithio ar gyfer bob Safonwr yn gysylltiedig â chwrs penodol sydd wedi'i ddilysu wedi'i gyfyngu erbyn hyn i uchafswm o saith mlynedd'. Ym marn y tîm adolygu nid yw'r datganiad yma yn cydfynd ag ysbryd yr argymhelliad ac efallai yr hoffai'r Brifysgol, er mwyn osgoi bod yn rhy gyfarwydd ac er mwyn hybu syniadau newydd a datblygiad staff, ystyried pennu pum mlynedd fel yr uchafswm arferol, gydag estyniad o ddwy flynedd dan amgylchiadau eithriadol.

Nodweddion allweddol y gweithdrefnau

a. Memoranda cytundeb

106 Mae'r ddau Lawlyfr Dilysiad yn cynnwys dogfen gytundeb sampl, nid yw hynny'n wir am y Llawlyfr Etholfraint. Wrth ystyried y cytundeb sampl ochr yn ochr â'r adran berthnasol yn y *Côd ymarfer* nododd y tîm adolygu fod tymor cychwynnol y cytundeb am dair blynedd. Wedi hynny, mae'r cytundeb yn parhau 'flwyddyn ar ôl blwyddyn' nes y bydd wedi'i ddileu. Clywodd y tîm nad oedd adolygiad blynyddol ffurfiol o'r cytundebau gyda phartneriaid i ddangos cymeradwyaeth barhaus a bod y cymal wedi'i ffurfio ar gyngor cyfreithiol. Daeth y tîm i'r casgliad nad oedd y ddatl benagored yma'n hollol gyfatebol â'r *Côd* sy'n awgrymu cynnwys ystyriaeth o hyd y cytundeb a'r trefniadau adolygu. Er bod y rhaglenni'n cael eu hadolygu bob pum mlynedd, nid yw'n ymddangos ar hyn o bryd fod proses ffurfiol ar gyfer adolygu addasrwydd parhaus y sefydliad partner, nag ar gyfer cymeradwyaeth flynyddol barhaus. Bydd y Brifysgol eisiau ystyried sut mae'r partneriaethau'n cael eu hadolygu'n

ffurfiol ac a fyddai'n addas i bennu pwynt gorffen ffurfiol ar gyfer cytundebau. Ar ben hynny, gallai'r Brifysgol ddarparu cytundeb sampl defnyddiol ar gyfer rhaglenni wedi'u hetholfreinio yn y Llawlyfr Etholfraint, i sicrhau bod ei gofynion yn glir.

b. Cymeradwyaeth, Monitro ac Adolygiad

Cymeradwyaeth

107 Mae'r gweithdrefnau ar gyfer archwiliad cyntaf canolfannau newydd, a dilysiad rhaglenni newydd i'w cael yn y Llawlyfrau Dilysiad. Mae'r Llawlyfrau'n gofyn fod Panelau sy'n Ymweld yn cynnwys cadeirydd o'r Bwrdd Dilysu, arbenigwyr pwnc priodol o'r Brifysgol ac arbenigwyr pwnc o'r tu allan i'r Brifysgol. Roedd y tîm adolygu o'r farn fod yr aelodaeth yma'n briodol am ei fod yn cynnwys elfen allanol a'r gallu i feincnodi yn erbyn darpariaeth debyg yn y Brifysgol. Mae'r esiamplau o gymeradwyo darpariaeth wedi'i dilysu a astudiwyd gan y tîm yn dangos bod y gweithdrefnau go iawn ar gyfer cymeradwyaeth gychwynnol wedi'u dilyn, er bod y tîm wedi nodi fod cyfraniad academaidd allanol ar gyfer un ohonynt wedi'i gymryd fel adroddiad ysgrifenedig. Yn yr esiampl yma, nid oedd darpariaeth gydweddol o fewn y Brifysgol felly roedd yna ddibyniaeth drom ar yr arbenigwyr allanol. Yn yr amgylchiadau yma'n arbennig, byddai'r cyfle i'r panel gymryd rhan mewn trafodaeth wyneb yn wyneb am fanwl gywirdeb academaidd y rhaglen yn ychwanegu'n sylweddol at y broses.

108 Mae'r safonwr a/neu aelod o'r Uned Ddilysu'n gwneud ymweliad dilynol ar ôl y dilysiad a chynhyrchir adroddiad ffurfiol i'r Pwyllgor Gweithredol. Mae'r tîm adolygu'n ystyried hyn yn ymarfer da. Mae cymeradwyaeth ddilynol am newidiadau i raglenni yn ddibynol ar faint y newid. Pan fo'n cynnwys mwy na 30 y cant o'r rhaglen cychwynnir adolygiad ffurfiol gan banel o aseswyr. Os bydd y newid yn golygu llai na 30 y cant mae yna ddau dull o gymeradwyo. Ar gyfer rhaglenni nad ydynt yn ymwneud ag iechyd, gan y safonwr a'r arholwyr allanol mae'r awdurdod i gymeradwyo newidiadau. Ar gyfer cyrsiau Astudiaethau Iechyd mae'r broses yma wedi'i chynnwys yn y Llawlyfr ond, o'r dystiolaeth sydd ar gael i'r tîm, gellir trosglwyddo'r gymeradwyaeth hefyd i'r Cydbwyllgor Astudio ar gyfer y rhaglen. Mae'r Bwrdd yma'n cynnwys pedwar cynrychiolydd o'r Brifysgol yn cynnwys y safonwr a'r arholwyr allanol, a thri chynrychiolydd o'r ganolfan sydd wedi'i dilysu. Yn y ddwy esiampl mae'r newidiadau wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol fel rhan o'r adroddiad blynyddol am y ddarpariaeth. Er bod hynny'n annhebygol, gallai'r ddwy broses olygu bod cynnwys rhaglen yn gallu newid gyda dim ond barn

yr arholwr allanol am newid sy'n benodol i bwnc. Mae gan y pwynt yma ymhlygiadau hefyd ar gyfer y prosesau adolygu cyfnodol (edrychwch isod, paragraff 110). Wrth ystyried y materion yma efallai y byddai'r Brifysgol eisiau ystyried ar ba lefel y dylent gymeradwyo addasiad i raglenni, y potensial ar gyfer sicrhau cyfranogiad arbenigwyr pwnc mewnol annibynnol yn y broses, ac eglurhad o'r trefniadau cyfredol ar gyfer rhaglenni Astudiaethau Iechyd.

Monitro

109 Mae canllawiau ar adroddiadau blynyddol am ddarpariaeth sydd wedi'i dilysu wedi'u darparu mewn Llawlyfrau Dilysiad. Mae tri adroddiad a ysgrifennir gan y safonwr/safonwyr, yr arholwyr allanol, a'r sefydliad partner. Ystyrir y tri adroddiad gyda'i gilydd yn y Pwyllgor Gweithredol lle mae dau aelod sy'n annibynnol i adran y safonwyr yn adolygu'r adroddiadau ac yn adrodd i'r Pwyllgor. Yna mae'r adolygwyr yn sicrhau bod y sylwadau a'r argymhellion wedi'u gweithredu drwy ddefnyddio ffurflen ymateb flynyddol ffurfiol. Rheolir y broses yma gan yr Uned Ddilysu. Gallai'r tîm adolygu weld esiamplau o'r broses yma ar waith ac, o'r dystiolaeth sydd ar gael iddo, daeth i'r casgliad ei bod yn gadarn, yn ddiuedd ac yn effeithiol.

Adolygiad bob pum mlynedd a phob tair blynedd

110 Fel arfer caiff y rhaglenni eu hadolygu'n ffurfiol bob pum mlynedd. Gyda rhaglenni Astudiaethau Iechyd ceir adolygiad interim ychwanegol ar ôl y tair blynedd gyntaf o weithrediad y rhaglen. Yn y ddwy achos mae'r broses yn cynnwys panel adolygu sy'n cynnwys aelod o'r Bwrdd Dilysu fel cadeirydd, yr arholwyr allanol, ac arbenigwr pwnc ychwanegol o Brifysgol Brydeinig y tu allan i Brifysgol Cymru. Mae'r panel yn adrodd yn ffurfiol i'r Bwrdd Dilysu drwy'r Pwyllgor Gweithredol. Nid yw'r safonwr yn aelod o'r panel ond bydd yn cynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r panel, oherwydd un o'r rhesymau am gynnal cyfarfodydd o'r fath yw i asesu ac adrodd am berfformiad y safonwr. Edrychodd y tîm adolygu ar samplau o'r adroddiadau a phapurau cysylltiedig a daethant i'r casgliad bod yr adolygiadau yma, fel proses, yn gadarn ac effeithiol hefyd. Ond, mae pryder am gyfansoddiad y panelau ar gyfer y gweithgareddau yma. Mae'n annhebygol fod y cadeirydd yn arbenigwr pwnc ac, fel y nodwyd uchod, mae'n debyg y bydd yr arholwyr allanol wedi cymryd rhan yn y broses gymeradwyo ac efallai yn natblygiad y cynnwys a newidiadau mewn asesiad. Gallai hyn achosi anawsterau i'r arholwyr allanol fydd yn ei chael hi'n anodd cymryd safbwynt diduedd a gwrthrychol wrth farnu datblygiadau rhaglen ac fe allai hyn roi pwysau mawr ar yr arbenigwr pwnc allanol. Ar gyfer rhaglenni wedi'u dilysu lle nad oes

darpariaeth gydweiddol, efallai bod y mater yn fwy difrifol oherwydd bydd y rhaglen wedi'i datblygu heb fudd safbwynt pwnc Prifysgol Cymru gan y safonwr. Efallai yr hoffai'r Brifysgol ystyried adolygu cyfansoddiad ei phanelau ar gyfer yr adolygiadau tair blynedd a phum mlynedd er mwyn sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf o arbenigedd allanol diduedd, a safbwynt sail pwnc mewnol Prifysgol Cymru.

Llinellau cyfathrebiad a chefnogaeth weinyddol

111 Mae gan yr Uned Ddilysu rôl ganolog mewn hybu cyfathrebiadau da rhwng yr holl bartïon sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cydweithredol. Mae hefyd, fel arfer, yn darparu cefnogaeth staff ar gyfer ymweliadau safonwyr i bartneriaid ac yn cymryd rôl datblygiad staff mewn materion gweithdrefnol a rheoliadol fel y bo'n ofynnol. Mae'r tîm adolygu o'r farn fod y dull yma o weithio fel tîm mewn ymweliadau yn ymarfer da. Ar y cyfan daeth y tîm i'r casgliad fod cyfathrebiadau rhwng pawb sy'n ymwneud â darpariaeth gydweithredol a'r gefnogaeth weinyddol yn gadarn iawn ac yn adlewyrchu'n dda ar waith yr Uned Ddilysu. Mae angen i un o safonwyr y Brifysgol ac aelod o staff Uned Ddilysu Cofrestrfa'r Brifysgol ddarparu hyfforddiant cychwynnol i arholwyr allanol ar gyfer sefydliadau wedi'u dilysu.

Penodi arholwyr allanol ar gyfer darpariaeth gydweithredol

112 Ar gyfer rhaglenni wedi'u dilysu gofynnir i'r sefydliadau enwebu arholwyr allanol a chyflwyno curricula vitae (CVs) yr arholwyr sy'n cael eu dychwelyd i'r Uned Ddilysu. Yna gofynnir i'r safonwr roi ei sylwadau ynghyd â dau aelod o'r Pwyllgor Gweithredol sydd â chyfrifoldeb am y sefydliad perthnasol. Yna anfonir y sylwadau i gyd at Gadeirydd y Bwrdd Dilysu i'w cymeradwyo'n derfynol. Os nad yw Cadeirydd y Pwyllgor Gweithredol ac aelodau'r Bwrdd Dilysu'n arbenigwyr pwnc gallai hyn olygu bod yr unig asesiad sail pwnc wedi'i wneud gan y safonwr. Ar gyfer darpariaeth nad yw'n gydweiddol mae'n bosib na fyddai asesiad sail pwnc ar gael. Gan nodi fod y Cadeirydd Pwnc yn edrych ar y CVs ac yn rhoi sylwadau ar addasrwydd ar gyfer sefydliadau cysylltiol, efallai yr hoffai'r Brifysgol ystyried delio ag enwebiadau ar gyfer darpariaeth gydweithredol yn yr un ffordd. Byddai hyn yn rhoi cyfle iddynt asesu a rheoleiddio cysondeb penodiadau ymhob rhaglen a ddarperir mewn maes astudio arbennig mewn sefydliadau partner a sefydliadau cysylltiol.

113 Mae gofyn i arholwyr allanol ar gyfer darpariaeth wedi'i dilysu gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Uned Ddilysu sy'n cynnwys pa weithrediad sy'n ofynnol gan y sefydliad perthnasol. Dosberthir copïau o'r adroddiadau i'r sefydliad i geisio ymateb, i'r safonwyr priodol yn y Brifysgol ac i staff Prifysgol Cymru yn cynnwys aelodau o Bwyllgor Gweithredol y Bwrdd Dilysu neu'r Bwrdd Dilysu llawn allai roi eu sylwadau ar faterion y mae angen i safonwr y Brifysgol ar gyfer y ddarpariaeth honno ymdrin â hwy, gan yr arholwr allanol neu gan y sefydliad. Gofynnir i sefydliadau ymateb i faterion sicrhau ansawdd a safonau a godir o fewn y broses yma. Anfonir crynodebau o holl argymhellion yr arholwyr allanol a'r safonwyr i'r sefydliadau cydweithredol fel rhan o ymateb blynyddol a phroses adolygu ar gyfer y sefydliadau yma. Mae'r holl ddogfennaeth flynyddol ar gyfer adolygiadau blynyddol a phum mlynedd ar gael gan y Bwrdd Dilysu. Y bwriad yw bod gwella'r broses yma'n cynnwys ystyried adroddiadau safonwyr ac arholwyr allanol mewn cydbwyllgorau astudiaeth a elwir yn flynyddol ymhob sefydliad. Mae adroddiad arolygiaeth yr holl faterion a godwyd gan arholwyr allanol ac a baratowyd gan yr Uned Ddilysu wedi'i gyflwyno i'r CAS, Pwyllgor Gweithredol y Bwrdd Dilysu a chyfarfod blynyddol y safonwr. Mae dadansoddiad o'r materion a godwyd gan arholwyr allanol ac ymatebion y sefydliadau wedi'u cynnwys yn y cylch adrodd yma. Mae'r Brifysgol yn derbyn fod y broses wedi'i manylu ond fod bylchau posib yn ei chysondeb systematig o gymhwysiad yn arbennig fel ffordd o sicrhau fod sefydliadau'n gweithredu ar y gofynion sy'n dod i'r amlwg o fewn y broses.

Dilysu graddau ymchwil

114 Roedd hi'n ddi-ddorol gan y tîm adolygu weld fod y Brifysgol yn ymestyn ei phrosesau dilysu i ddilysu sefydliadau ar gyfer graddau ymchwil, yn MPhil a PhD. Mewn trafodaethau doedd hi ddim yn eglur i'r tîm sut y gweithredwyd y dilysiad yma, pa wiriadau yr oedden nhw'n eu gwneud ar ansawdd y cynigion ymchwil a beth oedd swyddogaeth y Brifysgol yn y gwaith o arolygu ac arholi ymgeiswyr. Ni ddarperir unrhyw wybodaeth yn y Llawlyfrau Dilysu, yr unig arweiniad y gallai'r tîm ddod o hyd iddo oedd papur yn dwyn y teitl 'Meini prawf ar gyfer ceisiadau i gofrestru ac arolygu ymgeiswyr ar gyfer graddau MPhil a PhD Prifysgol Cymru'. Efallai yr hoffai'r Brifysgol ystyried dogfennu prosesau yn y maes yma mewn ffordd fwy cynhwysfawr a darparu gwybodaeth bellach am y ffordd y diogelir safonau'r dyfarniadau a sut y gallent fod yn fwy eglur.

Profiad y myfyrwyr o wybodaeth wedi'i chyhoeddi

115 Gan y sefydliadau mae'r cyfrifoldeb am ddarparu gwybodaeth i fyfyrwyr. Wrth gasglu'r SWS galwyd grŵp ffocws at ei gilydd oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Undeb y Myfyrwyr. Dywedodd yr SWS na allai unrhyw rai o'r cynrychiolwyr gofio unrhyw ddefnydd gwybodaeth am Brifysgol Cymru na'i swyddogaeth. Nodwedd bwysig o'r Brifysgol i fyfyrwyr yw ei threfn apelio ac mae gwybodaeth am hon yn llawlyfr y myfyrwyr ac ar y wefan. Ond, clywodd y tîm adolygu gan nifer o ffynonellau nad yw'r defnydd gwybodaeth yma'n hawdd i'w ddeall na'i gofio i fyfyrwyr. Daeth y SWS i'r casgliad y dylid ymdrin â'r materion yma, a'r gobaith oedd y gellid gwneud hynny drwy gydweithrediad y Brifysgol ag NUS Cymru. Bydd y Brifysgol eisiau sicrhau bod myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer gradd Prifysgol yn derbyn gwybodaeth glir a chymwys am y Brifysgol ac, yn arbennig, y broses apelio.

Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi

116 Dywedodd y SED nad yw'r Brifysgol Ffederal yn cynhyrchu adroddiadau data Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch am fod ei myfyrwyr i gyd wedi'u cofrestru gyda'r sefydliadau sydd felly'n dal y data ac yn cynhyrchu eu hadroddiadau eu hunain. Ond, dywedwyd wrth y tîm adolygu fod cynlluniau ar waith i rannu data gyda'i sefydliadau a bod dau grŵp yn edrych ar yr hyn y dylid ei wneud â'r data. Ar y cam hwn, roedd y tîm yn teimlo nad oedd gan y Brifysgol, ac nad oeddent yn bwriadu cael gafael ar, wybodaeth gynhwysfawr am berfformiad ei myfyrwyr a data perthnasol. Mae'r tîm adolygu wedi nodi'r meysydd nesaf yma fel rhai sydd angen sylw ar frys: cyflwyno mecanweithiau trosglwyddo data newydd rhwng sefydliadau a'r Brifysgol, a rheoli'r data yma mewn ffordd ddefnyddiol.

Canfyddiadau

Canfyddiadau

Pa mor effeithiol yw gweithdrefnau'r sefydliadau mewn sicrhau safonau'r dyfarniadau

117 Mae gan Brifysgol Cymru ei dogfen Fframwaith Academaidd ei hun sy'n darparu'r sail academaidd ar gyfer y berthynas ffederal rhwng y Brifysgol a'r sefydliadau cydweithredol, yr aelod-sefydliadau a'r sefydliadau cysylltiol hynny sy'n cynnig dyfarniadau'r Brifysgol. Mae cytundeb y Fframwaith Academaidd yn gwahanu'r cyfrifoldeb am safonau academaidd, ansawdd y ddarpariaeth academaidd a materion sicrhau ansawdd yn gyffredinol rhwng y Brifysgol Ffederal a'i sefydliadau. Mae trosglwyddo cyfrifoldebau'n benodol yn dibynnu ar aeddfedrwydd academaidd y sefydliad, ac a yw'r sefydliad yn aelod llawn o'r Brifysgol, neu a ydynt yn sefydliadau cysylltiol neu'n sefydliadau cydweithredol sy'n darparu cynlluniau wedi'u dilysu a'u hetholfreinio. Ar gyfer ei sefydliadau cysylltiol a'i darpariaeth gydweithredol mae'r Brifysgol yn cadw cyfradd mewn camau a graddau o arolygiad neu reolaeth uniongyrchol ar faterion ansawdd academaidd, safonau academaidd a sicrhau ansawdd.

118 Mae'r Brifysgol wedi trosglwyddo i'w haelod-sefydliadau llawn gyfrifoldeb penodol am faterion ansawdd academaidd, tra bo'r Brifysgol a'r aelod-sefydliadau'n cadw cyfranogiad mewn materion sicrhau ansawdd. Mae'r Brifysgol hefyd yn cadw cyfrifoldeb ar y cyd am amddiffyn, cynnal a chadw a gwella safonau academaidd.

119 Ond mae newidiadau diweddar yn yr amgylchedd allanol yn peri i'r Brifysgol ail ystyried natur a diffiniadau'r swyddogaethau a'r rolau y dylai'r Brifysgol eu gweithredu yn y dyfodol. Mae Bwrdd yr Is-Ganghellor yn y Brifysgol a'r Bwrdd Academaidd wedi dadlau'r materion yma'n ddiweddar a sicrhawyd bod y tîm adolygu'n ymwybodol o'r 'daflen bapur glân' oedd yn ymddangos y byddai swyddogaethau gweithrediadol a strategol y Brifysgol a'i sefydliadau yn y dyfodol yn cael eu dadlau arni.

120 Roedd diwygiadau diweddar i gylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd a rhai o'r Is-Bwyllgorau a'u Gweithgorau perthnasol, e.e. y CAS a Pwyllgor Sefydlog Dysgu Gydol Oes, yn awgrymu fod pobl yn dechrau ail ystyried ac ail alinio blaenoriaethau'r Brifysgol yn arbennig yn y ffordd yr oedd safonau academaidd a materion sicrhau ansawdd cysylltiedig yn dechrau bod yn bynciau trafod ar lefel y Brifysgol. Rhoddodd staff y Brifysgol a'r tîm adolygu sylwadau am hyn ac roeddent yn ei ystyried yn

symudiad positif sy'n dechrau datblygu. Dywedwyd wrth y tîm yn benodol am y symudiad mewn pwyslais yn y Bwrdd Academaidd o fod yn gorff 'stamp rwber' sy'n ymwneud gan fwyaf â materion gweithdrefnol a rheoliadau, i un lle'r oedd llawer mwy o gyfranogaeth amleiriog erbyn hyn gyda materion oedd yn bwysig i'r Brifysgol gyfan.

121 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad yma: yng nghyd-destun y cyfrifoldebau newidiol yma am ansawdd a safonau, mae goblygiadau Cytundeb y Fframwaith Academaidd, cymhlethdod y mecanweithiau ar gyfer rheoli safonau a sicrhau ansawdd o fewn y Brifysgol, a'r angen am gefnogi a chynnal cydberthynas strategol integredig rhwng y Brifysgol a'i sefydliadau, oll yn gofyn atgyfnerthu polisiâu gweinyddol ac academaidd y Brifysgol a datblygu ei strategaethau rheoli.

122 O fewn ei chytundeb Fframwaith Academaidd mae'r Brifysgol wedi adolygu'r *Côd ymarfer* a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth ac wedi sefydlu cyfrifoldeb gwahaniaethol am ddelio ag agweddau o'r *Côd* rhwng y Brifysgol a'i sefydliadau. Mae'r Brifysgol wedi diffinio ei diddordeb yn yr agweddau hynny o'r *Côd* sy'n berthnasol i faterion safonau academaidd ac i sicrhau ansawdd yn gyffredinol. Mae'r adrannau hynny o'r *Côd* sy'n ymwneud â materion ansawdd academaidd yn y ddarpariaeth a gynigir gan aelod-sefydliadau a sefydliadau cysylltiol wedi'u hystyried yn rhai sydd wedi'u trosglwyddo 'gan fwyaf' i'r sefydliadau heb fod 'unrhyw gyfraniad ychwanegol gan Brifysgol ffederal Cymru' yn ofynnol. Mae arwyddion yn dod i'r amlwg, fodd bynnag bod y Brifysgol yn datblygu ei hystyriaeth o safonau academaidd ac agweddau rheoli ansawdd y *Côd* a chydabyddiaeth o ba mor bwysig yw hi i'r Brifysgol ganfod ffordd priodol o reoli'r ystyriaethau yma sy'n cydgyfeirio mewn fframwaith strategol sy'n parhau i gydnabod swyddogaethau perthnasol y Brifysgol a'i sefydliadau yn y dyfodol. Er mwyn sicrhau bod holl agweddau a rheolau'r *Côd* wedi'u hadolygu'n effeithiol a'u cadarnhau ar lefel y Brifysgol, mae angen datblygu menter polisiâu integredig a rheolaeth strategol sylweddol.

123 Rheolir y safonau academaidd a materion sicrhau ansawdd ar gyfer partneriaid cydweithredol, aelod-bartneriaid a sefydliadau cysylltiol drwy strwythurau pwyllgorau'r Brifysgol ac mae hyn yn cynnwys y Bwrdd Academaidd, Bwrdd yr Is-Ganghellor, y CAS, y Bwrdd Dilysu, yr RSCC, y Bwrdd Apeliadau ac amrywiaeth o is-bwyllgorau a phwyllgorau sefydlog, a gweithgorau. Mae staff Cofrestrfa'r Brifysgol yn cefnogi'r mecanweithiau yma. Mae staff Cofrestrfa'r Brifysgol yn cysylltu â'r sefydliadau ac maent ar gael bob amser i gynnig cyngor a chefnogaeth. Mae staff

y gofrestrfa yn benodol gyfrifol am reoli'r fframwaith rheoliadol cyffredin ar gyfer y dyfarniadau, am fanylu'r gweithdrefnau sicrhau ansawdd lleiaf mewn sefydliadau, am adolygu a chysylltu gydag arholwyr allanol ar faterion sy'n gysylltiedig â'u hadroddiadau a gwaith gweinyddol arall, am gyfranogiad yn y gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â chymeradwyo cynlluniau astudio, am ddarparu gweithdrefnau apelio annibynnol a gweinyddiad cysylltiedig, ac am gefnogi gweinyddiad a gweithdrefnau arholi a graddio.

124 Mae newidiadau yng nghylch gorchwyl pwyllgorau'r Brifysgol ac aelodaeth a ffocws busnes ei his-bwyllgorau yn dangos bod y Brifysgol, drwy ymateb i amgylchiadau allanol yn dod yn fwy cynhwysol yn ei hadlewyrchiad o sylwadau academiaidd ar faterion sy'n gysylltiedig â sicrhau ansawdd a safonau academiaidd. Nododd y tîm adolygu yn arbennig yr esiampl o ehangiad aelodaeth y CAS i gynnwys aelodaeth academiaidd o bob un o'r sefydliadau yn y Brifysgol. Ar y llaw arall, roedd esiamplau o gyfranogiad cyfyngedig gan sectorau allweddol o opiniwn o fewn y Brifysgol. Roedd y rhain yn cynnwys corff y myfyrwyr a'r USC. Ar amser yr adolygiad, nid oedd gan y Brifysgol ffordd o sicrhau ei bod yn derbyn adborth gan y myfyrwyr heblaw drwy un cynrychiolydd brwdfrydig o Sefydliad y Myfyrwyr. Nid oes gan yr USC gyfle rheolaidd a chydlynol ar y cyd i adolygu safonau academiaidd neu bolisiau sicrhau ansawdd na'u cyfraniadau posib eu hunain.

125 Er y byddai ailddiffinio swyddogaethau a chylch gorchwyl y pwyllgorau yn y Brifysgol yn cyfrannu at drafodaethau strategol yn y dyfodol, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod angen adlewyrchu'n feiriadol ar y rheolaeth ddilynol ar yr elfennau cymhleth sy'n rhan o gyfansoddiad y Brifysgol er mwyn sicrhau bod modd sefydlu arweinyddiaeth fwy cydlynol ac integredig ar bolisiau academiaidd a gweinyddol.

126 Dywedodd yr SED fod cydberthynas y Brifysgol gyda'i harholwyr allanol yn darparu 'elfen allweddol' mewn gwarantu safonau academiaidd ei dyfarniadau. Mae'r Brifysgol yn darparu codau ymarfer ar gyfer ei harholwyr allanol ac ar gyfer yr arholwyr allanol hynny yn ei sefydliadau cysylltiol a darpariaeth gydweithredol mae hi hefyd yn darparu pecyn dosbarthu blynyddol. Anfonir pecyn blynyddol hefyd at bartner cydweithredol y Brifysgol, at ei sefydliadau ac at safonwr y Brifysgol sy'n gweithredu yn rôl y cysylltydd ac fel cyswllt academiaidd ar gyfer y sefydliad allanol arbennig. Mae'r pecyn dosbarthu'n cynnwys dogfennaeth reoliadol a chefnogol. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynhyrchu Llawlyfr y Gofrestrfa sy'n ymwneud i raddau mawr â rheoliadau. Nid yw'r Brifysgol yn cynhyrchu cyhoeddiad blynyddol ar

wahân am safonau ac ansawdd academiaidd sy'n integreiddio'r holl reoliadau cysylltiedig, y ddogfennaeth am weithdrefnau, polisiau sicrhau ansawdd, polisiau gwella a'r cyfeiriadau gofynnol at godau ymarfer. Ceir defnydd eang o e-bost a gweithdrefnau cyfathrebu eraill i hysbysu arholwyr allanol a sefydliadau am newidiadau i reoliadau a gofynion gweinyddol eraill.

127 Gwahoddir yr holl arholwyr allanol sydd newydd eu penodi i fynychu gweithgaredd hyfforddiant cychwynnol a, lle bo'n bosib, mae aelod o staff o Gofrestrfa'r Brifysgol yn mynychu ac yn siarad yn y gweithgareddau yma. Ar ben hynny, ar gyfer y ddarpariaeth gydweithredol mae diwrnodau hyfforddi safonwyr y Brifysgol.

128 I raddau mawr mae'r Brifysgol wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am enwebu a phenodi arholwyr allanol a'r holl waith gweinyddol cysylltiedig mewn aelod-sefydliadau i'r sefydliad ei hun. Ar gyfer y sefydliadau cydweithredol a'r sefydliadau cysylltiol, mae'r Brifysgol yn rheoli'r gweithdrefnau penodi drwy ei chadeiryddion pwnc a thrwy adolygu a chymeradwyo drwy gyfrwng ei Bwrdd Dilysu.

129 Ystyrir adroddiadau arholwyr allanol yn elfen bwysig mewn sicrhau bod dyfarniadau Prifysgol Cymru yn 'gymeradwy' â'r safonau ym Mhrydain. Hefyd mae gan y Brifysgol ddwy weithdrefn wahaniaethol ar gyfer derbyn ac ar gyfer trin adroddiadau a rheolwyr allanol. Mae adroddiadau blynyddol ar gyfer yr holl ddarpariaeth sydd wedi'i dilysu yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Brifysgol. Mae'r Bwrdd Dilysu'n adolygu'r adroddiadau, yn nodi ei ofynion, ac yn derbyn adroddiadau am y gweithredu a wneir. Mae crynodeb o'r canlyniadau a geir a'r hyn a wneir mewn ymateb i adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r CAS, i'r arholwr allanol ac i'r sefydliad perthnasol.

130 Mewn aelod-sefydliadau bydd arholwyr allanol yn derbyn *pro forma* lle maent yn rhoi sylwadau i'r sefydliad am faterion penodol sy'n ymwneud â'r cynllun dan sylw, ac ar faterion eraill sy'n berthnasol i'r FHEQ, sut mae'r safonau'n cymharu, manylbau rhaglenni, asesiadau, a chodau ymarfer. Mae'r sefydliadau'n ystyried yr adroddiadau yma ac yn darparu ymateb i'r arholwyr allanol. Mae'r fframwaith hefyd yn gofyn bod aelod-sefydliadau a sefydliadau cysylltiol yn ystyried materion y mae arholwyr allanol yn eu nodi ar eu cyfer. Fe allai'r arholwyr ddarparu i'r Brifysgol 'unrhyw faterion sydd o ddiddordeb neu sy'n achos pryder i'r Brifysgol yn eu barn hwy'.

131 Mae'r *pro forma* hefyd yn cynnig cyfle i'r arholwyr allanol roi sylwadau yn uniongyrchol i'r Brifysgol ar faterion o natur Prifysgol ffederal. Mae

cyfraddau ymateb diweddar i'r cyfle yma'n dangos bod 10 y cant o'r arholwyr allanol wedi dewis gwneud hynny. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad yma: er bod y systemau gwahaniaethol yma yn cymhwyso swyddogaethau'r Brifysgol Ffederal, yr aelod-sefydliadau, y sefydliadau cysylltiol a'r ddarpariaeth gydweithredol, roeddent ychydig yn gymhleth ac nid oeddent yn sicrhau bod sylwadau arholwyr allanol am safonau academiaidd a materion sicrhau ansawdd mewn aelod-sefydliadau neu faterion sy'n berthnasol i faterion thematig ffederal ar gael yn ddigonol i bywllgorau sefydlog y Brifysgol er mwyn sicrhau y gellid cynnal trafodaeth hollol gymaradwy. Nododd y tîm fod y Brifysgol wedi cydnabod yn barod bod ei harolygiaeth yn annigonol drwy wneud y peth positif a chymryd rhan mewn samplu mwy manwl o adroddiadau arholwyr allanol ar sail peilot gyda'r bwriad o'u cynnwys fel gwelliant parhaol. Ond, byddai'r tîm yn pwysleisio pwysigrwydd y ffaith fod y Brifysgol yn mabwysiadu polisi mwy cydlynol, ymestynnol a chynhwysol er mwyn arolygu'n ddigonol y materion yn ymwneud â safonau a godwyd gan arholwyr allanol, ac i allu sicrhau fod dulliau rheoli'r broses yn gyfatebol. Byddai hefyd yn caniatáu i'r Brifysgol adolygu'n fwy trwyadl sut mae ei safonau'n cymharu ymhob agwedd o'i darpariaeth.

132 Nid oes gan Brifysgol Ffederal Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol am gofrestru myfyrwyr neu am fonitro datblygiad y myfyrwyr. Mae gan aelod-sefydliadau a sefydliadau eraill ddata ac ystadegau cwblhau ac maen nhw'n tynnu dangosyddion perfformiad allan o'r rhain. Mae'r Brifysgol yn cynhyrchu set data ac roedd hwn ar gael i'r tîm adolygu. Mae'r Brifysgol yn derbyn bod ei gwybodaeth ystadegol bresennol, a'r berthynas gyda'i manylebion ei hun o'r pwrpasau y mae angen data o'r fath ar eu cyfer, ar gam cynnar yn ei ddatblygiad. Hysbyswyd y tîm fod datblygu polisi ar gyfer defnyddio ystadegau a'u cymhwysiad priodol yn y broses o gael ei sefydlu. Mae'r Brifysgol yn ymdrin â'r mater yma drwy benodi aelod newydd o staff yn y Gofrestrfa. Croesawyd y datblygiad yma gan y tîm fel cyfle arall i'r Brifysgol ddatblygu mwy o wybodaeth am y dyfarniadau a gynigir yn ei henw.

Sicrhau ansawdd rhaglenni

133 Yn hanesyddol, swyddogaeth y Brifysgol oedd gweithredu fel cofrestrfa ganolog ar gyfer ei sefydliadau. Felly, mae wedi darparu fframwaith rheoliadol sydd wedi'i gyfundrefnu fel Llawlyfr Adrannol y Gofrestrfa. Mae hon yn darparu cyfres gynhwysfawr o reoliadau sy'n galluogi pobl i ddysgu rhaglenni ymchwil a rhaglenni wedi'u dysgu Prifysgol

Cymru. Mae'n nodi, ar gyfer rhaglenni sail credydau, sawl credyd (oriau tybiannol myfyrwyr/10) sy'n ofynnol ar bob lefel o astudiaeth.

Mae hefyd yn rhoi manylion y gweithdrefnau ar gyfer archwilio ei rhaglenni, cyfrifo dosbarthiadau dyfarniadau, trin gwaith wedi'i asesu, a gweithrediad byrddau arholi. O'u cyfuno, mae'r gofynion yma'n gweithredu i sicrhau'r cefndir angenrheidiol i ddiogelu'r rhaglenni sydd wedi'u llywio gan y Brifysgol. Ar ben hynny, mae'r Brifysgol yn nodi beth yw'r gweithdrefnau lleiaf ar gyfer cymeradwyo rhaglenni gan y sefydliadau. Mae pob rhaglen newydd yn gofyn cyfranogiad USR sy'n gorfod adrodd i'r Brifysgol bod ei rheoliadau i gyd wedi'u hateb. Mae cynigiad y rhaglen ganllawiau yn cynnwys cyfeiriad at ddatganiadau meincnodi pwnc, sydd wedi'u cyhoeddi gan yr Asiantaeth, trefniadau ar gyfer monitro cyrsiau ac ar gyfer gwerthusiad y myfyrwyr o'r rhaglen. Nid yw'r Brifysgol yn nodi aelodaeth y panel cymeradwyo, e.e. a ddylid defnyddio cynghorwyr allanol, ond mae'n gofyn bod y sefydliad perthnasol yn adrodd yn ôl i'r aelodau.

134 Nid yw'r Brifysgol yn cynnal arolygiaeth o waith gwerthuso a monitro rheolaidd y rhaglenni presennol. Mae'n trosglwyddo'r dasg hon i'r sefydliadau, heblaw bod y Gofrestrfa'n derbyn llawlyfrau ansawdd y sefydliadau ar gyfer cydlynid cyffredinol â chanllawiau cyfredol yr Asiantaeth. Ond, mae'r Bwrdd Academiaidd wedi dechrau ystyried ffyrdd o sicrhau arolygiaeth fwy effeithiol ac mae wedi rhoi cynnig ar gynlluniau i fonitro adolygiadau cyfnodol gan ei sefydliadau ac i sicrhau cymorth yr USR i gael darlun traws-sefydliadol yn ystod yr adolygiad cyfnodol. Mae'r tîm adolygu'n croesawu'r datblygiad yma fel cydnabyddiaeth bellach o ymrwymiad y Brifysgol i arolygu'r adolygiad o'i dyfarniadau.

135 Roedd yr SED yn ei gwneud hi'n glir fod defnyddio cynghorwyr allanol yn y broses o gymeradwyo rhaglenni yn fater ar gyfer y sefydliadau unigol ond bod y Brifysgol yn teimlo'n hyderus bod ei sefydliadau i gyd yn gwneud gofyniad o'r fath. Nid oedd yr SED yn egluro a yw hyn yn gymwys i'r holl weithdrefnau ansawdd mewnol. Mae'r tîm adolygu'n argymhell bod y Brifysgol yn gwneud y ddau ofyniad yma fel mater o bolisi'r Brifysgol.

136 Dywedodd y Brifysgol yn ei SED ei bod yn hyderus o gydlynid â'r *Côd ymarfer*, a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth, drwy'r system ddeuol o gyfrifoldeb ffederal a sefydliadol. Mae'r Brifysgol yn parhau i adlewyrchu ar y prosesau fel y gwelir hwy drwy'r newidiadau graddol yn aelodaeth a gweithgareddau'r Bwrdd Academiaidd a'r Pwyllgor ar Safonau

Academaidd. Nododd yr SED fod y Bwrdd Academaidd yn ceisio datblygu systemau ffederal sy'n cyflenwi ond nad ydynt yn copio rhai'r sefydliadau

137 Mae'r tîm adolygu'n cydnabod sefyllfa arbennig y Brifysgol o ran ei dymuniad i annog rhyddid yn ei sefydliadau fel y gallent ddatblygu eu gweithdrefnau sicrhau ansawdd eu hunain ac o ran eu dymuniad i sicrhau safonau cyffredin dyfarniadau'r Brifysgol y mae'n gyfrifol amdanynt. I raddau mawr, mae'r broses ddeuol yn gweithredu i wella ansawdd y rhaglenni, gyda'r Gofrestrfa ffederal yn gweithredu fel adnodd gwerthfawr i gyflenwi'r sgiliau lleol. Ond, roedd y tîm yn gweld peryglon a chyfleoedd a gollwyd yn eu hagwedd. Roedd y gwerthusiad cyfyngedig gan y Brifysgol o'i rhaglenni yn golygu na allai deimlo'n hyderus ei bod wedi sicrhau eu hansawdd a'i bod yn llai galluog i ddarparu rôl arweiniol, yn hytrach na'i rôl oddefol hanesyddol mewn rheoli ansawdd. Roedd y tîm o'r farn ei bod hi'n hanfodol i'r Brifysgol ail ystyried y broblem yma. Os yw'n mynd i fod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd ei rhaglenni, rhaid gwneud gwerthusiad llawer dyfnach o ganlyniadau ei rhaglenni.

138 Roedd y tîm adolygu'n ei chael hi'n anodd gweld sut yr oedd y Brifysgol yn cydbwysu ei chyfrifoldeb sefydliadol i gyd am safonau ac ansawdd gyda rhai o'r mentrau ffederal sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Heb gynllun strategol ac arweinyddiaeth academaidd mae potensial i'r Brifysgol gynhyrchu gweithgareddau heb edrych yn glir ar y canlyniadau, neu heb unrhyw sicrwydd y byddent yn parhau yn y tymor hir. Fel y mae ar hyn o bryd, nid oes gan y Brifysgol arolygiaeth ddigonol o weithgareddau cynnal a chadw safonau, na mecanweithiau digonol i sicrhau cyfrifoldeb ar y cyd am ansawdd a safonau.

Cefnogi dysgu

139 Mae'r Brifysgol, am nad oes ganddi gyllido uniongyrchol ar gyfer addysgu, yn diffinio ei sefydliadau fel y cyrff sy'n gyfrifol am gefnogi dysgu a datblygiad y staff. Mae'n gweld ei gwaith o sicrhau'r prosesau yma drwy'r adborth mae'n ei dderbyn o apeliadau myfyrwyr ac o'r materion ffederal a nodir gan arholwyr allanol. Nododd y tîm adolygu nad oedd y prosesau yma'n darparu barn sy'n cynrychioli materion y myfyrwyr ac, ar ben hynny, bod cyfranogiad y myfyrwyr ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r Brifysgol yn gyfyngedig iawn. Mae'r tîm yn argymhell ail werthusiad radical gan y Brifysgol o'i gweithdrefnau ar gyfer sicrhau gwybodaeth am, ac ymateb i, brofiad y myfyrwyr. Ond, nododd y tîm hefyd sut yr oedd y Brifysgol

mewn rhai achosion wedi cyfrannu'n gryf i gefnogi dysgu. Roedd datblygiad staff a chydweithrediad rhyng-sefydliadol wedi'i hyrwyddo drwy nifer gynyddol o gyrff Prifysgol sy'n benodol berthnasol i bynciau e.e. y Cyngor Daearyddiaeth. Roedd Bwrdd Addysgu Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol a'r Pwyllgor Sefydlog ar Ddysgu Gydol Oes yn darparu arweiniad a gwelliant mewn dysgu. Mae'r tîm yn annog y Brifysgol i geisio mecanweithiau pellach ar gyfer ehangu ei chyraeddiadau mewn datblygiad staff traws-sefydliadol.

Pwyntiau cyfeirio cenedlaethol

140 Yn ei SED mynegodd y Brifysgol hyder yn ei chydlyniad â'r *Côd ymarfer*, y datganiadau meincnodi pynciau a'r FHEQ sydd wedi'i gyhoeddi gan yr Asiantaeth. Ond, gwelodd y tîm adolygu bod yr hyder yma wedi'i seilio i raddau mawr ar arolygiaeth y Brifysgol o'r llawlyfrau ansawdd yn y sefydliadau. Yn wir, roedd agwedd y Brifysgol yn ymwneud â chydlyniad â'r pwyntiau cyfeirio cenedlaethol yn hytrach na gwelliant drwy ystyried y datganiadau yma. Mae'r tîm yn cydnabod y newid graddol yn y Bwrdd Academaidd tuag at bolisi o welliant ond hoffai weld y broses yma'n mynd yn fwy ffurfiol. Mae'r tîm hefyd yn argymhell fod proses ar waith ar gyfer ymgorffori pwyntiau cyfeirio cenedlaethol yn raddol mewn rhaglenni sefydledig yn ogystal â rhaglenni newydd.

Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth

141 Roedd y data meintioliol am ddyfarniadau'r myfyrwyr a ddarparwyd i'r Panel Adolygu yn gyfyngedig, dim ond yn rhannol yr oedd wedi'i grynhoi ac nid oedd wedi'i ddadansoddi yn yr SED, i dynnu allan faterion o bwysigrwydd yn y ffordd y mae'n rheoli ei raglenni. Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod yna fwriad i wella argaeledd y data drwy gyflwyno system gyfrifiadurol newydd a bod dau bwyllgor yn ystyried ffyrdd o dynnu gwybodaeth berthnasol allan o hyn. Croesawodd y tîm y datblygiad angenrheidiol yma.

142 Dywedodd y SWS mai ychydig iawn o wybodaeth oedd gan y myfyrwyr am Brifysgol Cymru a'i chyfranogiad yn eu rhaglen a'i dyfarniadau. Cadarnhawyd y farn yma i'r tîm adolygu gan y myfyrwyr a welwyd yn ystod yr adolygiad. Roedd yr wybodaeth am brosesau apelio wedi'u nodi'n arbennig am y prinder eglurdeb ynddynt. Mae'r tîm yn argymhell bod y Brifysgol yn adolygu ei gweithdrefnau ar gyfer darparu gwybodaeth i'w myfyrwyr am swyddogaeth y Brifysgol.

Bwriadau am wella ansawdd a safonau

143 Nid oedd y SED a baratowyd ar gyfer yr adolygiad yn cynnwys unrhyw drafodaeth unigol hollol integredig o strategaethau wedi'u cydlynar ar gyfer gwella swyddogaeth troswaol y Brifysgol mewn materion safonau a sicrhau ansawdd. Roedd yr SED yn darparu cyd-destun cyffredinol ar gyfer swyddogaeth y Brifysgol mewn gwelliant sydd wedi'i seilio ar ddiddordeb ar y cyd mewn, a chyfrifoldeb ar y cyd am, sicrhau bod y safonau academaidd wedi'u cyrraedd a bod enw da dyfarniadau...[Prifysgol Cymru]...wedi'i gadw a'i wella'.

144 Ond roedd yr SED yn cynnwys amrywiaeth o fwriadau am wella, yr oedd rhai ohonynt wedi'u diffinio'n fanylach nag eraill. Er enghraifft, mae'r Bwrdd Dilysu wedi penderfynu ar nifer o dargedau i'w hystyried ac i'w gweithredu mewn rhaglen dair blynedd. Mae'r rhain yn cynnwys, parhau i ystyried yr Adroddiad Dilysiad ac Adolygiad (Adroddiad Wright); cyflwyno byrddau astudio ffurfiol mewn darpariaeth wedi'i dilysu er mwyn gwella'r strwythur adrodd; cyflwyno mynediad i fyfyrwyr i adnoddau dysgu ar-lein; gwella'r canllawiau ar gyfer cynlluniau dysgu o bell a darparu sgiliau allweddol; parhau â'r gweithdai sydd wedi'u seilio ar bynciau ac sy'n canolbwyntio ar welliant ar gyfer y canolfannau sydd wedi'u dilysu; cyflwyno systemau cofnodion y myfyrwyr newydd a chanllawiau ymarfer asesu mwy cynhwysfawr.

145 Roedd yr SED yn rhoi manylion amcanion gwella sy'n cael eu gweithredu drwy'r Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg oedd yn cynnwys sefydlu panelau cynghori am bynciau, rhwydweithiau cynghori a chronfa ddata o arholwyr iaith Gymraeg. Roedd y bwriadau strategol hefyd yn cynnwys penderfynu ar amcanion ar gyfer strategaeth datblygu staff ac ymgorffori cynlluniau cymrodoriaeth ac ysgoloriaeth sydd wedi'u hanelu at wella'r ddarpariaeth addysgu yn y sector.

146 Ar ben hynny, roedd yr SED yn cynnwys nifer o fentrau oedd yn dod i'r amlwg sy'n cynnig sail rannol ar gyfer datblygu polisi sydd wedi'i arwain gan welliant. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno ymarferion peilot sy'n cynnwys ailystyried y ffordd y gwneir yr adolygiad cyfnodol ac ailystyried egwyddorion a system yr adolygiadau mewnol. Roedd y tîm adolygu'n teimlo bod y ddwy fenter yn cyfrannu at agwedd sy'n canolbwyntio ar welliant. Hefyd mae arwyddion o bennu rôl gwelliant y Brifysgol mewn ffordd fwy rhagweithiol yn yr agenda diweddar a gwaith pwyllgorau sefydlog y Brifysgol a'i grwpiau gwaith/gweithgorau.

147 Er bod y mentrau yma'n dangos ymarferion positif oedd yn dod i'r amlwg ac yr oeddent i gael

eu hannog a'u cefnogi, daeth y tîm adolygu i'r casgliad nad oeddent wedi'u hymgorffori eto mewn ffocws rheoli strategol eglur a chynhwysfawr y gellid ei ddefnyddio i bennu, adolygu a chyhoeddi holl gyfleoedd cynllunio gwelliant y Brifysgol, ei modelau ymarfer da, a'u cyfraniad at amcanion corfforaethol y Brifysgol, er budd y Brifysgol yn gyffredinol. O ganlyniad, mae'r tîm wedi dod i'r casgliad nad yw'r Brifysgol Ffederal yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd i adlewyrchu ar ymarferion positif ac esiamplau o strategaethau gwella integredig. Hefyd, dangosodd y SED y bwriad i am weithredu a'r gwelliant disgwylidig. Ond, nid oedd y rhain bob amser yn amlwg berthnasol i'w cyfraniad uniongyrchol at wella ansawdd, sicrhau ansawdd neu ganlyniadau safonau academaidd.

Defnyddio'r SED

148 Roedd yr SED yn disgrifio'r newidiadau niferus sydd wedi digwydd yn natur ffederal y Brifysgol a sut mae hyn wedi gofyn hinsawdd o newid parhaus yn strwythur a chyfrifoldebau pwyllgorau'r Brifysgol. Ar ben hynny, cydnabyddir amrywiaeth eang o newidiadau posib yn y dyfodol a thrafodir eu goblygiadau. Nid oedd gan yr SED lawer i'w gynnig mewn perthynas â'r cwestiwn hanfodol o gyfrifoldeb ymhlwg, drwy berchnogaeth dyfarniadau'r Brifysgol, er mwyn gwella a sicrhau ansawdd. Bwriad yr SED oedd gwirio cydymffurfiad yn hytrach na gwelliant. Roedd y tîm adolygu'n gweld swyddogaeth y Brifysgol fel un rheoliadol yn bennaf yn hytrach na'i bod yn ceisio ffyrdd o wella profiad y myfyriwr. Cynigiodd y SED fel tystiolaeth o adborth er mwyn sicrhau ansawdd (i) gyfranogaeth ag arholwyr allanol, (ii) y drefn apelio a (iii) chynrychiolaeth gan fyfyrwyr ar ei phwyllgorau. Roedd y rhain i gyd yn ymddangos yn llai effeithiol i'r tîm nag yr oeddent wedi'i gynnig. Roedd yr wybodaeth a dderbyniwyd gan arholwyr allanol yn ddetholus ynghylch yr hyn yr oedd arholwyr allanol neu sefydliadau yn eu hystyried yn faterion ffederal. Roedd y gweithdrefnau apelio ffederal yn caniatáu ar gyfer amrediad rhagnodedig yn unig sy'n berthnasol i apelïadau a glywyd gan y sefydliadau. A chynrychiolaeth gyfan y myfyrwyr ar ran y Brifysgol oedd un unigolyn oedd bron yn anhysbys ir corff myfyrwyr.

149 Nid oedd y SED yn sicrhau gwybodaeth am strwythur rheoli gyfredol y Brifysgol, ac roedd yn methu disgrifio Bwrdd yr Is-Ganghellor yn arbennig oedd, er nad oes ganddo statws ffurfiol yn y strwythur cyffredinol, ym marn y tîm adolygu, yn chwarae rhan allweddol yn y ffordd y rheolir y Brifysgol. Er bod y SED yn adlewyrchu'n gywir beth oedd cyflwr y Brifysgol ar amser ei ysgrifennu a'r newid ar droed o

fewn y Brifysgol wrth iddi ymateb i ddylanwadau allanol a mentrau mewnol, roedd y tîm yn teimlo nad oedd yn darparu cydbwysedd eglur rhwng arweiniad academiaidd ac arweiniad gweinyddol, ac nid oedd chwaith yn dangos a oedd rôl i weithiwr academiaidd llawn amser arwain y materion gwelliant.

Pa mor effeithiol yw'r gweithdrefnau sefydliadol o ran sicrhau ansawdd a safonau dyfarniadau drwy ddarpariaeth gydweithredol

150 Mae gan y Brifysgol lawer iawn o ddarpariaeth gydweithredol, sydd wedi'i neilltuo naill ai fel darpariaeth wedi'i dilysu neu fel darpariaeth wedi'i hetholfreinio. Mae'r ddarpariaeth sydd wedi'i hetholfreinio yn weddol fychan ac mae wedi'i threfnu gan aelod-sefydliadau a sefydliadau cysylltiol yn uniongyrchol â phartneriaid. Mae'r Brifysgol yn cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau allweddol penodol e.e. cymeradwyaeth gychwynnol, adolygiad cyfnodol, a derbyniad a dadansoddiad adroddiadau blynyddol am y rhaglenni ac adroddiadau arholwyr allanol. Mae'r trefniadau yma'n darparu'r arolygiaeth gadarn i'r Brifysgol o weithgareddau etholfreinio sy'n arwain at ddyfarniadau yn ei henw.

151 Mae'r Brifysgol Ffederal yn trefnu ac yn rheoli darpariaeth wedi'i dilysu drwy bwyllgor lefel Prifysgol, y Bwrdd Dilysu. Mae'r Bwrdd yma'n derbyn cefnogaeth weinyddol gan Uned Ddilysu sydd yng Nghofrestfa'r Brifysgol. Cyhoeddir llawlyfrau sy'n rhoi arweiniad manwl ar gyfer cymeradwyo a gweithredu rhaglenni wedi'u dilysu ac mae gan y Brifysgol gyfres o brosesau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni ar y cychwyn a'u hadolygu'n flynyddol ac yn gyfnodol. Ffactor allweddol yng ngallu'r Brifysgol i reoli darpariaeth wedi'i dilysu yn effeithiol yw'r defnydd a wna o safonwyr Prifysgol, sy'n staff wedi'u penodi o'r un maes astudio o fewn y Brifysgol. Mae eu swyddogaeth yn gymhleth, yn cynnwys monitro, cynghori, diogelu gweithdrefnau, prosesau a safonau'r Brifysgol a sicrhau adroddiadau cyfnodol. Ym marn y tîm adolygu, mae'r drefn yma'n weddol effeithiol.

152 Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth bod y gweithrediad dilysu'n gweithio'n effeithiol yn gyffredinol. Mae'r prif adroddiad yn pennu nifer o faterion y byddai'r Brifysgol yn dymuno eu hystyried efallai er mwyn cryfhau ei gweithdrefnau cyfredol ymhellach. Mae nifer o faterion y bydd y Brifysgol yn dymuno eu hystyried hefyd mewn perthynas â'i darpariaeth ddilysedig wrth iddi barhau i ymateb i'r argymhellion yn Adroddiad Wright. Yn arbennig, mae'n wynebu sialensiau wrth geisio diogelu safonau'r ddarpariaeth os nad oes rhaglen yn yr un pwnc o fewn y Brifysgol.

Nodweddion o ymarfer da

153 O'r ymarferion da a nodwyd yn ystod yr adolygiad, mae'r tîm adolygu wedi pennu'r canlynol yn arbennig:

- i y gwaith mae'r Brifysgol yn ei wneud i gefnogi addysgu cyfrwng Cymraeg drwy weithgareddau'r Uned Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg (paragraffau 46, 56, 89, 139, 145);
- ii sefydlu cynhadledd y safonwyr i helpu i gefnogi gwaith yr Uned Ddilysu (paragraffau 98; 99); a
- iii rhoi gweinyddwr o'r Uned Ddilysu i'r safonwyr er mwyn sicrhau bod ymweliadau'r safonwyr yn drwyadl a chyflawn (paragraff 99).

Argymhellion ar gyfer gweithredu

154 Teimla'r tîm adolygu ei bod hi'n hanfodol i Brifysgol Cymru:

- i sefydlu a gweithredu polisi ffurfiol, a gweithdrefnau cysylltiedig, i ddiogelu safonau academiaidd yr holl ddyfarniadau y mae'n gyfrifol amdanynt (paragraffau 39, 50, 53, 62, 63, 75, 78, 87); a
- ii datblygu a gweithredu strategaeth i sicrhau sicrwydd dyfarniadau'r Brifysgol yn y dyfodol (paragraffau 48, 61, 68, 69, 76, 81).

155 Cynghorir Prifysgol Cymru ymhellach i:

- iii adolygu ac ail ddiffinio'r cydberthnasau rhwng pwyllgorau'r Brifysgol, eu llwybrau adrodd ac adborth, a'u cylch gorchwyl a'u cyfrifoldebau (paragraffau 39, 53, 74); ac
- iv atgyfnerthu strwythurau cyfredol i sicrhau agwedd fwy integredig tuag at arweinyddiaeth academiaidd a gweinyddol ar gyfer gweithgareddau ffederal y Brifysgol (paragraffau 52, 53, 83, 88).

Mae'r adolygiad yn awgrymu hefyd y byddai'r nesaf yn fanteisiol:

- v datblygu agwedd fwy cydlynol tuag at rôl y Brifysgol mewn gwella ansawdd y ddarpariaeth sy'n arwain at ei dyfarniadau (paragraffau 59, 147);
- vi canfod ffyrdd o sicrhau bod adroddiadau allanol am yr aelod-sefydliadau, ac ymatebion i'r adroddiadau hynny, yn cyfrannu'n effeithiol at ddiogelu dyfarniadau y mae'r Brifysgol yn gyfrifol amdanynt (paragraffau 64, 65); a
- vii parhau i ystyried ac ymdrin â'r argymhellion a nodir yn 'Adroddiad Wright' (paragraffau 102 to 105).

Atodiad

Ymateb y Brifysgol i adroddiad yr adolygiad

Mae'r Brifysgol yn falch bod adroddiad yr Adolygiad yn datgan yn glir nad oes 'unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cwestiwn dros y dyfarniadau a enillir gan fyfyrwyr sydd yn dilyn eu hastudiaethau yn yr aelod-sefydliadau'. Mae hyn yn cyd-fynd â chanlyniadau archwiliadau ac asesiadau ansawdd dysgu diweddar yn y sefydliadau.

Mae'r Brifysgol hefyd yn ymfalchio yn y ddedfryd o hyder mewn perthynas â'r rhaglenni hynny o'i heiddo a gynigir mewn cydweithrediad â sefydliadau partner, yn arbennig dramor, ac a weinyddir gan ei Bwrdd a'i Huned Ddilysu. Mae hyn yn cadarnhau casgliadau adolygiadau allanol diweddar eraill, gan gynnwys archwiliadau sefydliadau unigol gan yr Asiantaeth.

Serch hynny, mae'r Brifysgol yn cymryd o ddifrif mawr y ddedfryd o hyder cyfyngedig mewn perthynas â'i rheolaeth o ansawdd a safonau. Mae'n gweithio gyda'r Asiantaeth a'i haelod-sefydliadau i fynd i'r afael â'r materion sydd wedi'u nodi. Mae'r ddedfryd yn ymwneud â threfniadau strwythurol, yn hytrach na safonau'r dyfarniadau eu hunain ac mae'n ymwneud yn bennaf â'r Fframwaith Academiaidd a gyflwynwyd yng nghanol y 1990au. O dan y Fframwaith yma, datganolwyd i'r sefydliadau gyfrifoldeb am ansawdd, ond nid safonau.

Mae'r Brifysgol yn derbyn bod rhaid ail-ddiffinio'r perthnasau rhwng y Brifysgol ganolog a'r sefydliadau ac mae hi wedi penderfynu y bydd cyfrifoldeb am ansawdd a safonau yn cael eu datganoli'n llwyr i'r sefydliadau. Bydd ymateb y Brifysgol i'r adroddiad yn seiliedig ar y model datganoledig hwn.

Wrth ymateb i'r adroddiad, mae'r Brifysgol yn adeiladu ar ddatblygiadau oedd eisoes ar y gweill pan gafwyd yr Adolygiad. Yn gynnar yn 2004 – hynny yw, cyn Adolygiad yr Asiantaeth hyd yn oed - cychwynnodd y Brifysgol wneud adolygiad mewnol o'i rolau a'i swyddogaethau a'i pherthnasau â'r sefydliadau. Mae'r Grŵp sy'n cynnal yr adolygiad hwn wedi derbyn y dylai ei adroddiad ar ddyfodol Prifysgol Cymru (fydd yn cael ei gwblhau yn ystod Gwanwyn 2005) fod yn seiliedig ar y model datganoledig.

Am fod rhoi pwerau dyfarnu graddau i sefydliad yn rhoi sicrwydd i'r sefydliad hwnnw y gall fod yn gyfrifol am ddyfarniadau Prifysgol Cymru yn ei rhinwedd ei hun, caiff y cyfrifoldeb am ansawdd a safonau ei ddatganoli'n llawn i'r sefydliad pan fydd y sefydliad hwnnw wedi sicrhau ei bwerau dyfarnu graddau ei hun. Tan hynny, bydd trefniadau interim yn weithredol i ddarparu sicrwydd digonol parthed rheoli ansawdd a safonau. Mae'r Brifysgol eisoes wedi gwneud cynnydd da wrth ddiffinio'r trefniadau hyn, fydd yn golygu cynrychiolaeth allanol gynyddol ar gyrff sicrhau ansawdd allweddol yn y sefydliadau.

Wrth ddatblygu ei hymateb i'r adroddiad, mae'n bleser gan y Brifysgol gydnabod ei bod wedi gallu gweithio gyda swyddogion uwch yn yr Asiantaeth, sydd, fel y Brifysgol, o'r farn bod y model datganoledig yn ymateb priodol i gasgliadau'r Adolygiad Sefydliadol.